# Byd sy'n gyfoethocach mewn natur

## Lle gall natur a phobl ffynnu

**Bod yn natur bositif yn y DU erbyn 2030**



RSPB

# Amser am ddegawd o weithredu




Diwrnod gweithredu byd-eang
Nick Hawkes (rspb-images.com)

## Rydym i gyd am gael byd gyda mwy o natur

Mae natur yn sylfaenol i'n bywydau. Mae'n rhoi inni fwyd, dŵr, aer i'w anadlu, deunyddiau ar gyfer ein cartrefi, a meddyginiaethau i'n cadw'n iach. Mae'n rhoi hapusrwydd, yn ennyn chwilfrydedd, ac yn dod â heddwch inni.

Yn anffodus, mae pwysigrwydd a gwerth natur yn aml yn cael eu diystyru a'u hisraddio mewn cyfnodau o argyfwng. Ond mae hyn yn gamgymeriad. Os ydym ni am ffynnu, rhaid i natur ffynnu.

Mae'n fwy na bod eisiau mwy o natur – mae ei angen arnom. Y newyddion da yw ein bod yn gwybod llawer o'r atebion yn barod, ac mae digon o lwyddiannau i ddangos bod hyn yn bosibl. Yn ystod y deng mlynedd nesaf, bydd angen inni weithredu'r datrysiadau hyn ar raddfa fawr i roi ein bywyd gwyllt a'n dyfodol ein hunain ar y llwybr i adferiad erbyn 2030.

I gyrraedd y cam hwnnw, mae angen mabwysiadu dull 'natur bositif' (gweler tudalen 6). Bydd hyn yn sicrhau y bydd gennym fwy o natur ar ddiwedd y degawd nag ar ei ddechrau. Bydd yn golygu atal dirywiad a gweld adferiad. Bydd mabwysiadu natur bositif yn ein rhoi ar y trywydd i adfer iechyd natur erbyn 2050, drwy ddewis cymryd y camau cywir er budd pobl a'r blaned. Bydd yn gwneud y gorau i natur.

## Ond mae rhwystrau ar y llwybr i lwyddiant

Mae natur yn wynebu argyfwng, yn y DU ac yn fyd-eang. Yn ôl yr adroddiad State of Nature (2019) mae 41% o rywogaethau'r DU a aseswyd yn dirywio, ac er 1950, collwyd 133 o rywogaethau'n gyfan gwbl o'r wlad. Dangosodd asesiad byd-eang diweddar fod cynefinoedd a rhywogaethau'n cael eu colli'n gyflymach nag erioed: gyda dros filiwn mewn perygl o gael eu colli. Gwyddom mai'r rheswm pennaf am yr argyfwng hwn yw colli a diraddio cynefinoedd, yn aml oherwydd arferion amaethyddol niweidiol a gor-bysgota; llygredd fel defnyddio plaleiddiaid; a rhywogaethau goresgynnol sy'n cael effaith arbennig o ddinistriol ar natur ynysoedd.

Mae cysylltiad rhwng yr holl bethau hyn, ac mae cyflymu newid yn yr hinsawdd yn eu gwneud yn waeth.

**Dyma'r amser i weithredu, neu mi fydd yn rhy hwyr.**

## Mae angen inni gyflawni'r cynllun byd-eang newydd i achub byd natur

Mae'r byd wedi cytuno ar gynllun byd-eang newydd pwysig ar gyfer byd natur a fydd yn arwain gweithredu hyd at 2030. Mae'r Confensiwn ar Amrywiaeth Fiolegol (CBD) yn gytundeb byd-eang, lle mae gwledydd ar draws y byd yn dod at ei gilydd i benderfynu ar gamau i amddiffyn ac adfer byd natur.

Ym mis Rhagfyr 2022, cytunodd gwledydd y byd ar Fframwaith Bioamrywiaeth Fyd-eang Kunming-Montreal ac fe'i mabwysiadwyd (gweler y ddolen ar y gornel dde uchaf a chrynodeb ar dudalen 68). Er nad yw'n berffaith, mae'r cynllun newydd yn gosod cenhadaeth uchelgeisiol i atal a gwrthdroi colli bioamrywiaeth erbyn 2030. Mae cyflawni'r fframwaith hwn yn hanfodol ar gyfer gweithredu ar yr hinsawdd, rhoi Nodau Datblygu Cynaliadwy ar waith, a dyfodol bywyd ar ein planed.

Rhaid rhoi'r cynllun byd-eang newydd ar waith yn genedlaethol, gan gynnwys ar draws pedair gwlad y DU a'i Thiriogaethau Tramor. Ond i gyrraedd y targedau newydd hyn, ni allwn ailadrodd camgymeriadau'r gorffennol.

Er gwaethaf yr addewid i weithredu er mwyn atal dirywiad byd natur o dan y fframwaith byd-eang diwethaf yn 2010, dangosodd ein Hadroddiad Colli Degawd (2020) i'r DU fethu â chyrraedd bron pob un o'r targedau byd-eang. Yn frawychus, mae hwn yn batrwm.

**Mae llywodraethau dro ar ôl tro yn ymrwymo i dargedau, yn gwneud addewidion, ac yna'n methu â gweithredu.**

# Ni allwn ganiatáu i hyn ddigwydd eto

# Dyma ein gweledigaeth ar gyfer byd natur bositif erbyn 2030

## ADFER RHYWOGAETHAU

Rydym i gyd am gael byd sy'n gyfoethocach mewn natur. Yn anffodus, bob blwyddyn mae llai o adar yn canu, pryfed yn hedfan, a physgod yn ein moroedd.

***Ein gweledigaeth:*** **Erbyn 2030, bydd natur yn gyfoethocach yn y DU, a bydd dyfodol bywyd gwyllt yn fwy diogel, gyda phoblogaethau'n codi, diflaniadau'n dod i ben, a'r bygythiad o ddiflaniadau'n lleihau'n sylweddol.**

## ARDALOEDD GWARCHODEDIG

Mae ein hardaloedd gwarchodedig yn ddarnau o gynefinoedd a rhywogaethau amrywiol, a dylent fod yn ganolog i adferiad natur.

***Ein gweledigaeth:*** **Erbyn 2030, mae ein lleoedd gorau ar gyfer natur, a fydd yn cyfrif am o leiaf 30% o dir a môr, yn cael eu gwarchod yn briodol a'u rheoli'n dda. Mae ganddynt rôl allweddol yn adferiad byd natur.**

## BWYD A FFERMIO

Drwy newid ein dulliau, mae gan ein tir amaethyddol y potensial i hybu adferiad natur yn hytrach na'i ddirywiad.

***Ein gweledigaeth:*** **Erbyn 2023, mae ein ffermydd yn gyforiog o fywyd gwyllt, yn cynhyrchu bwyd o safon uchel sy'n diwallu ein hanghenion fel rhan o system fwyd fyd-eang sy'n deg, ac sy'n helpu adferiad natur a'r symudiad at economi sero net.**

## PYSGODFEYDD

Mae arferion pysgota anghynaliadwy'n fygythiad i'r adar môr sydd mor bwysig inni, ac yn peryglu ein hamgylcheddau morol. Ond drwy gymryd camau blaengar, mi all hyn fod yn rhan o'r gorffennol.

***Ein gweledigaeth:*** **Erbyn 2023, mae pysgodfeydd yn cael eu rheoli fel y byddant yn cynnal poblogaethau o adar môr sy'n ffynnu, ac yn helpu natur a'r hinsawdd.**

## NEWID YN YR HINSAWDD

Mae ein hinsawdd yn newid yn gyflym. Mae'n dod yn fwy amlwg fyth fod cysylltiad pendant rhwng argyfyngau natur a'r hinsawdd.

***Ein gweledigaeth:*** **Erbyn 2023, byddwn wedi mynd i'r afael â'r argyfwng natur a hinsawdd i gael byd sy'n natur bositif, ar y trywydd i gyflawni sero net, ac sydd wedi addasu ar gyfer hinsawdd cynhesach. Gwneir hyn drwy ddatrysiadau sy'n seiliedig ar natur ar gyfer newid yn yr hinsawdd, ynni adnewyddadwy sy'n natur bositif, ac amaethyddiaeth a physgodfeydd sy'n gweithio mewn ffordd sy'n cynnal natur, yr hinsawdd a phobl.**

## CYLLID

Mae angen arian os am weithredu: arian sy'n dda i natur ac a all gyflymu newid positif.

***Ein gweledigaeth:*** **Erbyn 2023, mae newid sylfaenol tuag at economi natur bositif. Mae'r bwlch cyllido ar gyfer natur wedi'i gau, mae penderfyniadau buddsoddi'n natur bositif, ac mae cronfeydd ar gael ac wedi'u targedu mewn ffordd sy'n gwneud gwahaniaeth gwirioneddol i natur.**

## Dyma ein cynnig ar sut y gall llywodraethau'r DU hybu degawd o weithredu natur bositif. Bydd hyn yn ein helpu i gyflawni'r weledigaeth hon.

Rydym wedi nodi chwe maes i ganolbwyntio ymdrechion arnynt ledled y DU a Thiriogaethau Tramor y DU rhag inni golli degawd arall i natur. Nid dyma'r unig bethau sy'n rhaid eu gwneud, o bell ffordd, ond os gallwn gyflawni'r blaenoriaethau hyn, mi allant ein rhoi ar drywydd natur bositif. Rydym hefyd yn cynnwys mesurau llwyddiant a chyflwr presennol pob blaenoriaeth, ac mi fyddwn yn defnyddio'r rhain i ddwyn y llywodraeth i gyfrif wrth iddi weithredu'r fframwaith byd-eang newydd. Ym mhob un o'r chwe maes, mae camau gweithredu trawsbynciol pendant:


1. **Newid i economi natur bositif.** Mae hyn yn golygu cynnwys natur yng nghalon penderfyniadau economaidd a mesur a chostio gwir werth asedau natur, i sicrhau bod buddsoddiad yn llifo'n ôl i adfer a rheoli cyfalaf naturiol yr ecosystemau sy'n ein cynnal.
2. **Cryfhau, gweithredu, a gorfodi deddfwriaeth amgylcheddol yn well** a fydd yn rhoi sylfaen gyfreithiol gadarn i adfer natur yn y degawd hwn.
3. **Datblygu, gweithredu a dysgu drwy gynlluniau a strategaethau cadarn** i arwain a chyflawni ar ymrwymiadau amgylcheddol rhwymol mewn cyfraith y DU.
4. **Cymryd camau cyfannol sy'n arwain at ddatrysiadau lluosog i natur.** Cyflawnir hyn drwy ymgorffori a blaenoriaethu adferiad natur mewn llywodraethau, gan gydnabod ei rôl hanfodol yn ein system fwyd, yr economi, ac i fynd i'r afael ac addasu ar gyfer newid yn yr hinsawdd.
5. **Cyflawni a defnyddio cyllid digonol ac effeithiol yn briodol** i fynd ati o ddifrif i hybu newid.
6. **Ategu gweithredu â gwyddoniaeth,** a monitro ein cynnydd yn fanwl, yn gywir a thryloyw.
7. **Cefnogi a grymuso pobl i weithredu dros natur.**



Derwen mewn fforest law Geltaidd, Gogledd Cymru
Richard Bowler (rspb-images.com)

# DU natur bositif erbyn 2030

Mae natur bositif wedi'i bennu fel cenhadaeth benodol i hybu gweithredu byd-eang dros natur. Mae'n pwyso am atal a gwyrdroi'r dirywiad mewn bioamrywiaeth erbyn 2030 – fel y bydd gennym fwy o natur erbyn diwedd y degawd nag oedd gennym ar ei ddechrau. Mae hyn yn golygu y bydd yn rhaid inni ddeall faint o natur sydd gennym yn awr, a gweithredu i'w wella a'i gynyddu mewn ffordd fesuradwy erbyn diwedd y degawd. Mae hyn yn cynnwys atal colledion i ecosystemau, gwarchod a rheoli ein mannau gorau ar gyfer natur yn effeithiol, adfer ecosystemau drwy ymgorffori natur ym mhob agwedd ar yr economi a chymdeithas, a mynd i'r afael â diflaniad rhywogaethau ac adfer poblogaethau bywyd gwyllt. Gellir gweithredu ar wahanol raddfeydd – yn fyd-eang, yn genedlaethol, yn lleol – ac ar draws gwahanol sectorau.




Ein gweledigaeth ar gyfer DU natur bositif erbyn 2030, wedi'i addasu o'r Global Goal for Nature. Am ragor o wybodaeth, ewch i https://www.naturepositive.org/.

# Adferiad rhywogaethau



**Haid o ddrudwy**
Oliver Smart (rspb-images.com)

# Beth ydym ni ei eisiau?

Erbyn 2030, mae natur y DU yn gyfoethocach, ac mae dyfodol bywyd gwyllt yn **fwy diogel**, gyda **phoblogaethau'n cynyddu, diflaniadau wedi'u hatal, a'r bygythiad o ddiflaniadau wedi'u lleihau'n sylweddol.**

# Sut fyddwn yn gwybod ein bod wedi cyflawni?

- **Colledion mewn bioamrywiaeth wedi'u hatal a'u gwyrdroi.** Mae hyn yn golygu bod tueddiadau mewn helaethrwydd a dosbarthiad rhywogaethau wedi newid o 'yn dirywio' i 'ar gynnydd'.
- **Ni fu dim diflaniadau wedi'u hachosi gan bobl** ymhlith rhywogaethau y gwyddys sydd dan fygythiad.
- **Mae gwelliannau yn statws cadwraeth rhywogaethau dan fygythiad,** felly mae'r perygl o ddiflaniad yn lleihau.
- **Mae cymunedau o rywogaethau'n gwella'n chwarae rhan allweddol yn adferiad yr ecosystem.**

# Astudiaethau achos ysbrydoledig


## Lloegr


Aderyn y bwn Ewrasiaidd
Ben Andrew (rspb-images.com)

### Aderyn y bwn

Ers iddynt ddod yn agos at ddiflannu'n llwyr am fod eu cynefin yn cael ei golli a'i ddiraddio, mae niferoedd adar y bwn yn awr yn dangos cynnydd da. Mae hyn wedi digwydd drwy greu cynefinoedd o welyau cyrs a phrosiectau gwella. Yn 1997 dim ond 11 o wrywod oedd gennym. Erbyn hyn mae dros i 200 mewn bron i 100 o safleoedd. Mae llawer o adar eraill y gwlyptiroedd ac amrywiaeth mawr o rywogaethau, gan gynnwys llygod y dŵr a gwyfynod llewpart y cyrs, wedi elwa'n fawr ar y gwaith hwn.

## Cymru


Britheg brown
David J Slater (rspb-images.com)

### Natur am Byth

Mae Natur am Byth yn brosiect Adferiad Gwyrdd pwysig sy'n gweithio i achub rhywogaethau rhag diflannu, ac i ailgysylltu pobl â natur. Mae'r prosiect, sydd yn ei gam datblygu tan Chwefror 2023, yn canolbwyntio ar bedair ardal ar y tir a dwy yn y môr yng Nghymru. Bydd rhywogaethau prin yn elwa drwy ddull integredig, Hefyd, mae chwe phrosiect un rhywogaeth sydd naill ai'n rhai Cymru gyfan neu safle benodol.

*Mae'r prosiect hwn yn cynnwys naw eNGO (Cadwraeth Amffibiaid ac Ymlusgiaid, yr Ymddiriedolaeth Cadwraeth Ystlumod, Buglife, Gwarchod Gloÿnnod Byw, Plantlife, y Gymdeithas Cadwraeth Forol, RSPB Cymru, Ymddiriedolaeth Bywyd Gwyllt Vincent), ac mae'n cael ei arwain gan Cyfoeth Naturiol Cymru. Mae cam datblygu'r prosiect wedi cael cyllid gan Gronfa Treftadaeth y Loteri Genedlaethol.*



## Gogledd Iwerddon



Y Gylfinir Ewrasiaidd
Roger Tidman (rspb-images.com)

### Y Gylfinir

Bu gostyngiad o 82% ym mhoblogaeth y gylfinir yng Ngogledd Iwerddon rhwng 1987 a 2013. Mae cyn lleied â 250 o barau ar ôl. Fodd bynnag, mae cadwraeth wedi'i dargedu yn yr ardaloedd craidd sy'n weddill ar Lwyfandir Antrim a Lough Erne yn ystod yr 20 mlynedd diwethaf wedi golygu bod cyfradd y dirywiad wedi lleihau'n sylweddol (25 i 30%). Mae'r niferoedd wedi sefydlogi yn ystod y blynyddoedd diwethaf. Mae bron hanner poblogaeth Gogledd Iwerddon yn yr ardaloedd craidd hyn. Mae'r dull hwn sydd wedi'i dargedu wedi golygu partneriaeth glos rhwng RSPB Gogledd Iwerddon, tirfeddianwyr, cymunedau a'r asiantaethau statudol. Mae'r prosiect Curlew in Crisis sy'n cael ei ariannu gan LIFE yr UE yn cyfrannu at y gwaith hwn.

*Mae'r gwaith hwn wedi cael ei ariannu drwy RSPB Gogledd Iwerddon, amaeth-amgylchedd, a chyllid prosiect o ffynonellau cenedlaethol a'r UE (Cronfa Dreftadaeth y Loteri Genedlaethol, EU LIFE ac Interreg).*

## Yr Alban


Eryr môr
Kevin Sawford (rspb-images.com)

### Eryr môr

Yn dilyn erlid digyfaddawd drwy gydol y 19eg ganrif, cafodd eryrod môr eu hela hyd ddiflaniad cenedlaethol ym mlynyddoedd cynnar yr 20fed ganrif. Bu cadwraethwyr o'r Alban a Norwy'n gweithio mewn partneriaeth i ddod â'r rhywogaeth yn ôl. Ar ôl llwyddiannau wrth ailgyflwyno yn Nwyrain a Gorllewin yr Alban, mae gan y rhywogaeth bellach boblogaeth gynhenid sy'n bridio ac yn ffynnu unwaith eto. Er bod y niferoedd yn dal yn fychan, mae'r poblogaethau o fudd i gymunedau lleol drwy dwristiaeth mewn ardaloedd diarffordd.

## Tiriogaethau Tramor y DU



Igwanaod creigiau Ynysoedd Turks a Caicos
Ed Marshall (rspb-images.com)

### Igwanaod creigiau Ynysoedd Turks a Caicos

Dim ond ar Ynysoedd Turks a Caicos, ac ar un ynys fechan yn y Bahamas mae'r rhywogaeth arbennig hon o igwana i'w chael. Mae gan igwanaod rôl ecolegol bwysig, ac maent yn atyniad pwysig i dwristiaid, ac amcangyfrifir eu bod yn cyfrannu $3.7m yn flynyddol. Mae'r igwanaod hyn bellach yn meddiannu llai na 10% o'u tiriogaeth hanesyddol, yn bennaf oherwydd rhywogaethau goresgynnol. Pan gafodd ynys Pine Cay ei datblygu yn y 1970au, gostyngodd nifer yr igwanaod o 5,500 i lai na 30 o oedolion mewn dim ond tair blynedd ar ôl i gŵn a chathod gael eu cyflwyno. Gan adeiladu ar dri degawd o ymchwil a gwaith cadwraethol, cafodd partneriaeth draws-sefydliad ei datblygu i reoli rhywogaethau goresgynnol. Yn 2019, cafodd cathod fferal eu difa ar dair ynys, gan roi cyfle i igwanaod Pine Cay gynyddu. Mae'r boblogaeth bellach yn gymharol sefydlog. Yn 2020, symudwyd yr igwana o'r rhestr Mewn Perygl Difrifol i Restr Goch yr IUCN.

*Mae'r bartneriaeth draws-sefydliad hon yn cynnwys Ymddiriedolaeth Genedlaethol y Turks & Caicos, Llywodraeth y Turks a Caicos, y sector preifat, a sefydliadau anllywodraethol rhyngwladol.*

## Moroedd y DU


Adar Drycin Manaw
Oliver Smart (rspb-images.com)

### Adar Môr y DU

Mae'r DU yn gynefin o bwys rhyngwladol i adar môr ac mae ganddi gyfrifoldeb i warchod ac adfer poblogaethau. Mae ychydig llai nag 8 miliwn o adar môr o 25 rhywogaeth yn bridio yn y DU, gan gynnwys 80% o holl adar drycin Manaw'r byd, ac mae miliynau'n rhagor o adar yn gaeafu ac yn hedfan drwy'r DU wrth fudo. Ond eto, mae adar môr o dan fwy o fygythiad nag erioed, ac yn dirywio'n gyflymach nag unrhyw grŵp arall o adar. Mae'r rhan fwyaf o adar môr yn bridio ar ynysoedd, ac yn ddibynnol ar foroedd a physgodfeydd sy'n cael eu rheoli'n dda, ynghyd â mesurau bioddiogelwch cadarn. Mae prosiectau i waredu Ynys Dewi o lygod mawr yn y 1990au wedi galluogi sawl rhywogaeth o adar môr i gynyddu, gan gynnwys cynnydd pumplyg yn nifer yr adar drycin Manaw, ac mae niferoedd y gwylogod a mulfrain wedi dyblu.

# Beth sydd angen inni ei wneud?

## Mae angen i lywodraethau'r DU:

- **Pennu targedau uchelgeisiol, rhwymol ar gyfer niferoedd rhywogaethau** (i gadw rhywogaethau cyffredin yn gyffredin, ac adfer niferoedd rhywogaethau sydd wedi lleihau) **a pherygl diflaniad rhywogaethau** (i sicrhau bod diflaniadau o ganlyniad i weithgarwch pobl yn diweddu).
- **Gweithredu gan bobl o bob cefndir i ddiogelu rhywogaethau** rhag diflannu, i adfer rhywogaethau mewn perygl, eu gweld yn ffynnu, a chadw rhywogaethau cyffredin yn gyffredin. Rhaid i'r camau hyn – sy'n rhaid eu hategu gan gyllid a pholisïau digonol – gynnwys:
  - rhaglenni cenedlaethol i adfer ac ailgyflwyno rhywogaethau;
  - gwarchod a rheoli safleoedd, gan fabwysiadu dull 'gwell, mwy, a mwy cydlynus';
  - adfer ecosystemau;
  - lleihau llygredd;
  - ffermio natur gyfeillgar, wedi'i ategu gan gynlluniau amaeth-amgylcheddol;
  - rheoli coedwigoedd a physgodfeydd;
  - cynllunio cymhellion economaidd i adfer natur;
  - safonau bioddiogelwch;
  - buddsoddi i ddeall clefydau fel Ffliw Adar Pathogenig Iawn a chamau i leihau effeithiau;
  - cynllunio amgylcheddol;
  - monitro rheolaidd, trylwyr.
- **Cymryd camau brys yn achos grwpiau blaenoriaeth yn benodol, fel adar môr** (gweler yr adran ar Foroedd y DU ar dudalen 15) ac **adar ffermdir** (drwy gynlluniau amaeth-amgylcheddol sy'n allweddol i adfer rhywogaethau yn ogystal â chadw rhywogaethau cyffredin yn gyffredin.
Gweler hefyd yr adran Bwyd a Ffermio).
- Cyflwyno **cynllun ar frys yn y DU i gymryd lle rhaglen gyllido LIFE yr UE** i ariannu'r camau hyn.


Piod môr
Ernie Janes (rspb-images.com)


Gwibiwr y llennyrch
Ben Andrew (rspb-images.com)

## Mae angen gweithredu penodol yn y gwahanol wledydd:



### Lloegr

- Sicrhau targedau uchelgeisiol, rhwymol ar gyfer amlder rhywogaethau a bod y perygl o ddiflaniad wedi'i gynnwys yn y gyfres gyntaf o dargedau Deddf yr Amgylchedd.
- Cynyddu cyllid ar gyfer rhaglen adfer rhywogaethau Natural England.
- Llunio Fframwaith Adfer Rhywogaethau blaengar a chydweithredol. Dylai hwn adeiladu ar wersi rhaglenni adfer rhywogaethau'r gorffennol yn Lloegr, fel 'Back from the Brink' a weithiodd i sicrhau dyfodol i dros 200 o rywogaethau, drwy gydweithrediad bron i 100 o sefydliadau a Natural England.
- Sicrhau bod cynlluniau rheoli tir amgylcheddol (ELM) newydd wedi'u cyllido'n ddigonol a'u bod yn helpu i adfer rhywogaethau drwy annog ffermwyr i droi at arferion sy'n fwy caredig at natur a'r hinsawdd.



### Cymru

- Cynnwys targedau ar gyfer dosbarthiad ac amlder rhywogaethau, a'r perygl o ddiflaniad, mewn cyfres o dargedau adfer natur rhwymol i Gymru.
- Datblygu Fframwaith Adfer Rhywogaethau ar gyfer Cymru i arwain cydweithredu rhwng y llywodraeth, cyrff anllywodraethol a chymdeithas sifil. Bydd hyn yn sicrhau bod bywyd gwyllt Cymru'n ffynnu mewn cynefinoedd sy'n gwella, a bod pobl a chymunedau'n elwa ac yn gofalu am natur.
- Drwy gyfrwng Cynllun Ffermio Cynaliadwy newydd, darparu cyngor o safon uchel a galluogi ffermwyr a rheolwyr tir i weithio â'i gilydd i helpu rhywogaethau â blaenoriaeth ar eu tir.



### Gogledd Iwerddon

- Pennu targedau rhwymol ar gyfer adferiad natur gan gynnwys amlder a dosbarthiad rhywogaethau a'r risg o ddiflaniad mewn Deddf yr Amgylchedd i Ogledd Iwerddon.
- Datblygu a chyflawni Rhaglen Adfer Rhywogaethau, sy'n cynnwys y llywodraeth, cyrff anllywodraethol a chymdeithas sifil. Dylai hyn hefyd roi sylw i fylchau mewn monitro a gwyddoniaeth.
- Sicrhau bod gan gynlluniau amaeth-amgylcheddol y dyfodol yr holl fecanweithiau ar waith a'u bod yn diogelu rhywogaethau ffermdir â blaenoriaeth gan gynnwys adar rhydio sy'n bridio, brain coesgoch, rhegennod yr ŷd a breision melyn.
- Sicrhau bod cyllid ar gael ar gyfer ymyriadau ar gyfer rhywogaethau penodol na ellir eu hariannu mewn unrhyw ffordd arall.



### Yr Alban

- Cynnwys rhaglen i adfer rhywogaethau sydd wedi'u targedu yn Strategaeth Bioamrywiaeth yr Alban hyd 2045.
- Cynnwys rhaglen i adfer ecosystemau yn Strategaeth Bioamrywiaeth yr Alban hyd 2045.
- Datblygu system effeithiol o gyllid amaeth-amgylcheddol wedi'i dargedu at adferiad rhywogaethau allweddol, gan gynnwys adar rhydio sy'n bridio, brain coesgoch, rhegennod yr ŷd, breision yr ŷd, planhigion âr a chacwn.
- Gweithredu system drwyddedu gadarn ar gyfer saethu grugieir.
- Datblygu rhaglen genedlaethol i adfer ynysoedd adar môr (gwaredu rhywogaethau goresgynnol) a bioddiogelwch ynysoedd. Sefydlu Arolygiaeth Rhywogaethau Goresgynnol yr Alban erbyn 2025 i fynd i'r afael ag ymlediad ac effeithiau rhywogaethau goresgynnol yn gyffredinol.



### Moroedd y DU

- Gweithredu i sicrhau bod adar môr a disgrifyddion ehangach o iechyd morol yn cyrraedd Statws Amgylcheddol Da (GES) o dan Strategaeth Forol y DU. Rhaid i'r camau hyn gynnwys (ond ni ddylid eu cyfyngu i):
- Datblygu ymhellach raglen i adfer ynysoedd i waredu mamaliaid goresgynnol o nythfeydd adar a buddsoddi mewn mesurau bioddiogelwch. Dylai hyn adeiladu ar lwyddiant y prosiect Biosecurity for LIFE.
- Rhoi diwedd ar bysgota llymrïaid yn ddiwydiannol yn nyfroedd y DU a chyflwyno mesurau i gynyddu poblogaethau pysgod porthiant (llymrïaid a phenwaig yn benodol), gan gynnwys rheoli pysgodfeydd yn seiliedig ar ecosystemau a gwarchod cynefinoedd allweddol.
- Dilyn system cynllunio morol gofodol gadarn, sy'n mabwysiadu dull seiliedig ar ecosystemau ac sy'n sicrhau na fydd pwysau gan bobl yn bygwth cyflawni Statws Amgylcheddol Da.
- Cyhoeddi, ac ariannu camau brys o Strategaethau Cadwraeth Adar Môr i wella eu rhagolygon o safbwynt cadwraethol. Dylai llawer o'r rhain gynnwys camau a restrwyd uchod.



### Tiriogaethau Tramor y DU

- Sicrhau cyllid tymor hir i raglen Darwin Plus Llywodraeth y DU. Mae hon wedi helpu i ddiogelu nifer o rywogaethau sydd dan fygythiad.
- Parhau i gynnig help i gryfhau deddfwriaeth bioddiogelwch ac i'w gweithredu yn y Tiriogaethau.
- Codi ymwybyddiaeth a dealltwriaeth y cyhoedd o arwyddocâd bywyd gwyllt yn Nhiriogaethau Tramor y DU – sy'n gartref i 94 y cant o rywogaethau endemig Prydain a 90 y cant o'r fioamrywiaeth y mae gan Lywodraeth y DU gyfrifoldeb amdani.



**Aderyn y Bwn Ewrasiaidd**
Ben Andrew (rspb-images.com)

# Y sefyllfa bresennol

## Y Deyrnas Unedig

**41%**
**o rywogaethau'n dirywio**

Mae 41% o rywogaethau'r DU yn dirywio er 1970. Mae amlder cyfartalog rhywogaethau wedi dirywio 13% er 1970, ac roedd cyfradd y dirywiad yn uwch yn y degawd diwethaf.[1]




Collwyd 133 o rywogaethau'n gyfan gwbl ers y 1500au. Bernir fod 15% o 8,418 o rywogaethau a aseswyd gan ddefnyddio meini prawf Rhestr Goch lleol wedi'u bygwth â diflaniad yn y DU.[1]

**228th o 240**

Mae gwledydd y DU ymhlith y rhai sydd wedi'u hamddifadu fwyaf o natur yn y byd. Roeddent yn y 228fed safle, allan o 240 o wledydd a thiriogaethau yn y Mynegai Cyfanrwydd Bioamrywiaeth.2 Mae hwn yn fesur rhyngwladol o iechyd ecosystemau. Er bod llawer o'r colledion hyn yn hanesyddol, rydym yn dal i golli natur heddiw.

## Lloegr

**35%**
**o rywogaethau'n dirywio**

Mae 35% o rywogaethau yn Lloegr wedi dirywio er 1970. Mae rhywogaethau yn Lloegr wedi lleihau ar gyfartaledd mewn amlder er 1970.[1]




O'r 7,615 o rywogaethau a aseswyd drwy ddefnyddio meini prawf Rhestr Goch rhanbarthol, mae 13% o rywogaethau yn Lloegr mewn perygl o ddiflannu o Brydain Fawr.[1]

**233rd o 240**

Roedd Lloegr yn safle 233 yn y Mynegai Cyfanrwydd Bioamrywiaeth (y seithfed gwaethaf).[2]

## Cymru

**52%**
**o ddirywiad mewn gloÿnnod byw**

Nid oes un dangosydd amlder ar gyfer rhywogaethau yng Nghymru hyd yma, ond mi wyddom fod dirywiad yn parhau mewn sawl tacsa, gan gynnwys gloÿnnod byw sydd wedi profi dirywiad o 52% ar gyfartaledd.[3]




O'r 6,500 o rywogaethau yng Nghymru a aseswyd gan ddefnyddio meini prawf Rhestr Goch Rhanbarthol IUCN, mae 8% o rywogaethau Cymru mewn perygl o ddiflannu o Brydain Fawr.[1]

**224th o 240**

Roedd Cymru yn safle 224 yn y Mynegai Cyfanrwydd Bioamrywiaeth (yr 16eg gwaethaf).[2]

## Gogledd Iwerddon

**43%**
**o ddirywiad mewn gloÿnnod byw**

Oherwydd data annigonol, nid oes un dangosydd amlder ar gyfer rhywogaethau yng Ngogledd Iwerddon. Ond gwyddom fod 43% o ddirywiad mewn amlder cyfartalog ymhlith naw rhywogaeth o loÿnnod byw er 2006, a 38% o ddirywiad mewn amlder cyfartalog ymhlith 36 rhywogaeth o adar dŵr er 1988.[1]




O'r 6,413 o rywogaethau a aseswyd gan ddefnyddio meini prawf Rhestr Goch Rhanbarthol, mae 11% o rywogaethau mewn perygl o ddiflannu o ynys Iwerddon.[1]

**228th o 240**

Roedd Gogledd Iwerddon yn safle 228 yn y Mynegai Cyfanrwydd Bioamrywiaeth (y 12fed gwaethaf).[2]

## Yr Alban

**49%**
**o rywogaethau'n dirywio**

Mae 49% o rywogaethau wedi profi dirywiad mewn amlder er 1970.[1]




O'r 6,413 o rywogaethau a aseswyd gan ddefnyddio meini prawf Rhestr Goch rhanbarthol, mae 11% mewn perygl o ddiflannu o Brydain Fawr.[1]

**212th o 240**

Roedd yr Alban yn safle 212 yn y Mynegai Cyfanrwydd Bioamrywiaeth (28aim gwaethaf).[2]

## Tiriogaethau Tramor y DU




Ni fu dim diflaniadau byd-eang sy'n hysbys yn Nhiriogaethau Tramor y DU er 2004, pan gollwyd Olewydden St Helena am byth. Mae Darwin Plus wedi galluogi gweithredu brys yn achos llawer o rywogaethau critigol, ond mae angen mwy o help.

## Moroedd y DU



Nid yw adar môr ar hyn o bryd yn cyrraedd Statws Amgylcheddol Da (GES) o dan Strategaeth Forol y DU. O'r 15 dangosydd yn Strategaeth Forol y DU dim ond pedwar sy'n cael eu cyflawni. Mae adar môr yn symud pellhau, yn hytrach na nesáu, at Statws Amgylcheddol Da.

# Ardaloedd gwarchodedig



Gwarchodfa Natur Forsinard yr RSPB
David Tipling (rspb-images.com)

## Beth ydym ni ei eisiau?

Erbyn 2023, **mae ein mannau gorau ar gyfer natur, sy'n cyfrif am 30% o dir a môr, yn cael eu gwarchod a'u rheoli'n dda.** Mae ganddynt rôl hanfodol i adfer natur.

# Sut fyddwn yn gwybod ein bod wedi cyflawni?

- **Mae o leiaf 30% o dir a moroedd ledled y DU yn cael eu gwarchod yn ofalus ar gyfer natur.**
- **Mae'r safleoedd hyn yn cael eu rheoli'n effeithiol** i sicrhau bod eu cynefinoedd a'r rhywogaethau yn y cyflwr gorau posibl.
- **Mae ardaloedd gwarchodedig wedi'u cysylltu'n well,** gan greu cynefinoedd mwy gan alluogi rhywogaethau i symud yn rhwyddach.
- **Mae monitro gofalus yn digwydd yn ein holl ardaloedd gwarchodedig,** gan ein helpu i ddeall ble mae angen ymyrryd.

# Astudiaethau ysbrydoledig

## Lloegr




Ashway Gap yng Ngwarchodfa Natur Dove Stone yr RSPB
Alan Coe (rspb-images.com)

### Gorgorsydd yn Dove Stone

Mae gorgorsydd iach yn storio meintiau enfawr o garbon, ac maent ymhlith ein cynefinoedd mwyaf gwerthfawr, ac yn gartref i amrywiaeth ryfeddol o fywyd gwyllt. Fodd bynnag, mae mawndiroedd wedi dioddef dirywiad tymor hir, oherwydd llygredd, gorbori a llosgi. Yn Dove Stone yn y Peak District, mae prosiect sydd wedi gwyrdroi'r colledion mawn drwy reoli gwell ac ail-wlychu ac ailgyflwyno llystyfiant. Mae'r gwaith wedi gweddnewid y mawndiroedd. Gwelwyd cynnydd yn yr adar rhydio sy'n bridio, mae ansawdd y dŵr wedi gwella, ac mae cynefinoedd cyfoethocach yn dechrau datblygu.

*Mae hon yn bartneriaeth rhwng RSPB Lloegr ac United Utilities.*

## Cymru



Cors Ddyga
David Wootton (rspb-images.com)

### Adfer y gwlyptir yng Nghors Ddyga

Mae Cors Ddyga yn Ynys Môn yn un o ddim ond tri Safle o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig (SoDdGA) yng Nghymru sydd wedi'u dynodi oherwydd cyfoeth eu hinfertebratau dyfrol. Mae wedi cael ei rheoli gan yr RSPB er 1994. Mae'r safle'n hen bwll glo, ac mae wedi'i ddraenio gyda nifer o ffosydd serth heb adael llawer o le i natur. Ers i'r RSPB ddechrau rheoli'r safle, rydym wedi codi lefelau'r dŵr ac wedi adfer y gwlyptir ac agor nodweddion dŵr. Roedd hyn yn llwyddiant – erbyn hyn Cors Ddyga yw un o'r safleoedd bywyd gwyllt pwysicaf yng Nghymru ac yn un o lond llaw yn unig lle mae cornchwiglod yn bridio'n llwyddiannus. Mae'r gwelyau cyrs yn gartref i ddyfrgwn, llygod dŵr ac adar y gwlyptiroedd. Dyma un o'r ychydig fannau yng Nghymru lle gellir gweld boda'r gwerni, ac yn ddiweddar mae adar y bwn wedi dychwelyd i fridio yn y safle.

*Mae'r gwaith yn cael ei ariannu gan Gronfa Treftadaeth y Loteri Genedlaethol, Ymddiriedolaeth Gaynor Cemlyn-Jones, a'r Gronfa Datblygu Cynaliadwy, menter Llywodraeth Cymru yn Ardal o Harddwch Naturiol Eithriadol Ynys Môn.*



## Gogledd Iwerddon



Argaeau Mawn Garron Dungonnell
Henry McLaughlin, NIW

### Adfer Mawndir yn Garron Plateau

Mae Garron Plateau yn lle eithriadol o bwysig i natur. Mae'n cynnwys yr ardal fwyaf eang o orgors gyflawn yng Ngogledd Iwerddon, gyda bodaod tinwyn, cudyllod bach a gylfiniroed yn bridio yno, ynghyd â phlanhigion prin gan gynnwys tormaen melyn y gors. Mae'r safle'n cynnwys Cronfa Ddŵr Dungonnell, sy'n cyflenwi dŵr yfed i dros 14,000 o gartrefi. Yn 2010, roedd 94.5% o'r safle mewn cyflwr anffafriol. Cychwynnodd gwaith adfer yn 2010 a oedd yn cynnwys cynllun rheoli, blocio draeniau, adeiladu argaeau, a lleihau dwysedd y da byw. Erbyn 2016 roedd y safle ar ei ffordd i adferiad.

*Roedd hon yn fenter gydweithredol rhwng RSPB Gogledd Iwerddon, NIEA, a NI Water gyda chyllid gan fenter Cooperation across Borders for Biodiversity (CABB) INTERREG VA yr EU.*

## Yr Alban




Afon Spey
Mike Read (rspb-images.com)

### Prosiect LIFE 100% for nature

Bydd y prosiect pum mlynedd hwn yn rhoi hwb i gyflwr y safleoedd pwysicaf i natur mewn 11 lleoliad, gan dreialu technegau cadwraeth arloesol. Mae prosiectau'n cynnwys defnyddio merlod pori Konik i helpu i adfer y ffen gorlifdir mwyaf yn y DU yng Nghorsydd Insh a defnyddio ffustiau torri gwair a reolir o bell i dorri grug. Rydym hefyd wedi cyflwyno gwartheg pori fel rhan o ddau dreial mewn coedwigoedd pîn hynafol i wella amodau i rugieir y coed (capercaillie). Gellir wedyn efelychu'r technegau hyn ar safleoedd eraill.

*Mae hwn yn un o brosiectau RSPB yr Alban sy'n cael ei ariannu drwy raglen LIFE yr UE gyda chymorth ychwanegol gan NatureScot, Cairngorms Connect ELP, The Famous Grouse a chyllidwyr a chefnogwyr eraill.*

## Tiriogaethau Tramor y DU



Llosgfynydd Tristan Da Cunha
Jonathan Hall (rspb-images.com)

### Ardal forol warchodedig Tristan Da Cunha

Ym mis Tachwedd 2020, cyhoeddwyd y cefnfor o amgylch Tristan Da Cunha fel ardal warchodedig lawn fwyaf Cefnfor Iwerydd. Mae'r Parth Gwarchodaeth Forol deirgwaith yn fwy na'r DU ac yn gartref i ddegau o filiynau o adar môr gan gynnwys yr albatros sydd mewn perygl difrifol, y northern rockhopper, pengwiniaid, morloi, siarcod a morfilod. Mae'r ynys yn gartref i tua 250 o bobl y mae eu bywoliaeth yn ddibynnol ar iechyd y cefnforoedd am bysgota cynaliadwy. O dan arweiniad y gymuned, mae'r Parth Gwarchodaeth Forol yn ganlyniad blynyddoedd lawer o weithio mewn partneriaeth gyda chymorth yr RSPB, Llywodraeth y DU, Rhaglen Blue Belt Llywodraeth y DU a llawer o gyrff anllywodraethol a chyllidwyr eraill. Drwy amrywiaeth o weithgarwch rheoli, gwyddoniaeth, ymgysylltu ac allgymorth, bydd y prosiect yn sicrhau bod gan y gymuned y gallu i greu dyfodol cynaliadwy cryf i'w cefnfor.

*Gwireddwyd y prosiect drwy gydweithrediad a oedd yn cynnwys, ond heb ei gyfyngu i: yr RSPB, Llywodraeth Tristan da Cunha, y gymuned leol, a nifer o gyllidwyr.*

## Moroedd y DU



Dogger Bank, Môr y Gogledd
Genevieve Leaper (rspb-images.com)

### Gwarchod ysglyfaeth adar môr yn Dogger Bank


Dogger Bank yw'r banc tywod mwyaf yng nghanolbarth deheuol Môr y Gogledd, ac mae yno gyfoeth o lymrïaid, pysgodyn bychan llawn olew sy'n fwyd pwysig i adar môr. Ym mis Mawrth 2022, rhoddwyd gwarchodaeth o'r diwedd i Ardal Cadwraeth Arbennig Dogger Bank rhag gweithgarwch pysgota niweidiol i warchod banciau tywod Dogger Bank. Roedd y mesurau hyn yn golygu diwedd ar bysgota llymrïaid yn yr ardal. Roedd hefyd yn arwydd o symudiad positif gan lywodraethau i reoleiddio'n llym y bysgodfa llymrïaid ddiwydiannol y gwyddys sy'n cael effaith andwyol ar boblogaethau adar môr y DU, sydd o bwys rhyngwladol.

# Beth sydd angen inni ei wneud?

**Mae angen i lywodraethau'r DU sicrhau bod ardaloedd gwarchodedig yn fwy na llinellau ar fap, a sicrhau mai hwy yw'r safleoedd gorau lle gall natur ffynnu drwy fesurau gwarchod priodol a rheolaeth dda.**

**I gyflawni hyn, rhaid i lywodraethau ddynodi ardaloedd gwarchodedig gwell, mwy, a mwy cydlynus, a chydnabod a gwerthfawrogi eu buddiannau:**

- **Gwneud ardaloedd dynodedig yn 'well'**
  - **Gwarchod ein hardaloedd gwarchodedig yn briodol.** Rhaid i'n safleoedd natur gorau gael eu gwarchod yn gyfreithiol rhag niwed a diraddio. Mae angen cynllunio cadarn a rheoli datblygiadau, a defnydd effeithiol o bwerau gorfodi i warchod y mannau arbennig hyn.
  - **Rheoli ein hardaloedd gwarchodedig yn briodol.** Dylid cael rhoi trefniadau rheoli effeithiol ar waith i sicrhau bod y bywyd gwyllt a'r cynefinoedd mewn cyflwr da ac ar y ffordd i adferiad.
  - **Ariannu ein hardaloedd gwarchodedig yn briodol.** Mae hyn yn holl bwysig. Mae eu cyflwr gwael presennol yn ganlyniad blynyddoedd lawer o fuddsoddi annigonol a thoriadau mewn cyllidebau.
  - **Monitro ein hardaloedd gwarchodedig yn briodol.** Mae angen trefniadau monitro ac adrodd gofalus ar gyfer yr holl ardaloedd gwarchodedig. Bydd hyn yn dangos cyflwr y safleoedd ac yn ein helpu i ddeall lle mae angen gweithredu.
  - **Pennu targedau cryf** i wella iechyd ein hardaloedd gwarchodedig a'u rhywogaethau a'u cynefinoedd.
  - **Sicrhau bod ein hardaloedd gwarchodedig yn addas at y dyfodol.** Mae angen sicrhau bod ardaloedd gwarchodedig yn gydnerth a dynamig yn wyneb newid yn yr hinsawdd.
- **Gwneud ardaloedd gwarchodedig yn 'fwy'**
  - **Gwneud ein hardaloedd gwarchodedig presennol yn fwy.** Mae angen ardaloedd gwarchodedig mwy sy'n darparu clytweithiau mwy o gynefinoedd sy'n well i gynnal bywyd gwyllt a helpu i adfer poblogaethau'r rhywogaethau.
  - **Trawsnewid ein tirweddau gwarchodedig.** Dylai mannau fel Parciau Cenedlaethol ac Ardaloedd o Harddwch Naturiol Eithriadol gael eu diwygio a'u helpu i annog adferiad natur ar raddfa fawr. Bydd hyn hefyd yn cynyddu faint o dir sy'n cael ei warchod a'i reoli'n briodol i natur.
- **Gwarchod 'mwy' o ardaloedd ar gyfer natur**
  - Ymestyn yr ardaloedd sy'n cael eu gwarchod ar gyfer natur. Mae angen sicrhau bod o leiaf **30% o'n tir a'n moroedd yn cael eu gwarchod a'u rheoli'n effeithiol erbyn 2030.** Mae hyn yn golygu bod 30% o dir a môr yn cael eu gwarchod gan y gyfraith rhag difrod yn y tymor hir, a chael eu rheoli'n dda fel bod natur mewn cyflwr da neu'n gwella.
  - Sicrhau bod ardaloedd gwarchodedig yn cael eu creu i warchod ein **lleoedd gorau ar gyfer natur.** Bydd hyn yn dechrau drwy ganfod a dynodi safleoedd sy'n cyd-fynd ac yn cwblhau ein rhwydweithiau presennol o ardaloedd gwarchodedig ac yna gwarchod safleoedd eraill sy'n dda i natur.
  - **Ar y môr, llenwi'r bylchau** yn y rhwydwaith o Ardaloedd Morol Gwarchodedig a **chynyddu'r rhwydwaith** o Warchodfeydd Morol Gwarchodedig Iawn.
- **Gwneud ardaloedd gwarchodedig yn 'fwy cydlynus'**
  - **Cysylltu ein hardaloedd gwarchodedig yn well a'u gosod yng nghalon y rhwydweithiau natur ehangach.** Bydd hyn yn helpu i greu ac uno ardaloedd mwy o gynefinoedd o ansawdd da, gwella cyflwr ein safleoedd natur gorau, a galluogi rhywogaethau i symud yn rhwyddach rhwng ein tirweddau.



**Lludwymon ar y distyll**
Genevieve Leaper (rspb-images.com)

## Camau i wledydd penodol sydd angen eu cymryd:



### Lloegr

- Sicrhau bod targedau rhwymol ar gyfer cyflwr safleoedd gwarchodedig ar dir a môr wedi'u cynnwys o fewn targedau Deddf yr Amgylchedd.
- Sicrhau bod newidiadau arfaethedig i'r ddeddfwriaeth yn sicrhau ac yn cryfhau'r cyfreithiau sy'n diogelu ein safleoedd gwarchodedig.
- Gweithredu ar adeiladu ar Adolygiad Glover, fel y bydd arwynebedd y tir mewn tirweddau gwarchodedig sy'n gallu cyfrif tuag at y targed o 30% o dir yn cynyddu. Bydd hyn yn golygu newidiadau i ddibenion, dyletswyddau a llywodraethiant tirweddau gwarchodedig, yn ogystal â datblygu targedau clir a mesuradwy.
- Yn y Cynllun Amgylcheddol 25 Mlynedd wedi'i ddiweddaru, ymrwymo i weithredu'r argymhellion a geir mewn adolygiadau diweddar (gan gynnwys Ardaloedd Gwarchodaeth Arbennig a Safleoedd o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig). Mae hyn yn cynnwys sicrhau bod safleoedd pwysicaf Lloegr ar gyfer rhywogaethau a chynefinoedd allweddol yn cael eu gwarchod a'u gwella.



### Cymru

- Cyflwyno Bil Diogelu'r Amgylchedd gyda dyletswydd i bennu targedau rhwymol ar gyfer adfer natur gan gynnwys targedau ar gyfer cyflwr safleoedd gwarchodedig ar dir ac ar y môr.
- Sicrhau bod trefniadau rheoli effeithiol ar waith i bob safle gwarchodedig, gan gynnwys gwneud mwy o ddefnydd o gytundebau rheoli.
- Llenwi'r bylchau presennol ar gyfer safleoedd gwarchodedig drwy weithredu ac ariannu rhaglenni monitro cenedlaethol cynhwysfawr.
- Dynodi mwy o safleoedd gwarchodedig gan ddechrau gydag achosion lle mae'r angen wedi'i ddangos eisoes (gan gynnwys Safleoedd o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig, Ardaloedd Gwarchodaeth Arbennig a Pharthau Gwarchod Morol).
- Diwygio Parciau Cenedlaethol ac Ardaloedd o Harddwch Naturiol Eithriadol Cymru i roi mwy o adnoddau a phwerau iddynt i wneud mwy dros natur, gyda thargedau clir a mesuradwy.



### Gogledd Iwerddon

- Cyflwyno Deddf yr Amgylchedd ar gyfer Gogledd Iwerddon sy'n cynnwys dyletswydd i bennu a chyrraedd targedau ar gyfer adferiad natur, gan gynnwys ardaloedd gwarchodedig ar dir a môr.
- Ehangu'r rhwydwaith ardaloedd gwarchodedig ledled Gogledd Iwerddon drwy ddynodi safleoedd sydd wedi'u nodi eisoes a sicrhau bod cynllun rheoli effeithiol ar waith ar bob safle.
- Sicrhau bod y broses o ehangu rhwydwaith y safleoedd yn cael ei reoli mewn ffordd sy'n adlewyrchu'r uned fioddaearyddol a rennir ar ynys Iwerddon. Parhau i gydweithredu dros y ffin.
- Gwneud gwaith monitro cynhwysfawr o'r safleoedd gwarchodedig yng Ngogledd Iwerddon, a sicrhau bod y data ar gael yn gyhoeddus.
- Diwygio Ardaloedd o Harddwch Naturiol Eithriadol Gogledd Iwerddon i'w galluogi i wneud mwy dros natur, gyda thargedau clir a mesuradwy.



### Yr Alban

- Cyflawni cynllun cadarn ac uchelgeisiol i warchod 30% ac i warchod yn ofalus iawn 10% o dir a môr yr Alban ar gyfer natur erbyn 2030. Canolbwyntio ar wneud y rhwydwaith o ardaloedd gwarchodedig yn 'fwy, yn well a mwy cydlynus'.
- Cyflwyno Bil yr Amgylchedd Naturiol gyda thargedau rhwymol i warchod 30% o dir a môr yr Alban ar gyfer natur erbyn 2030 a gwella cyflwr ein hardaloedd gwarchodedig.
- Ariannu NatureScot yn ddigonol i warchod ein safleoedd natur gorau a gweithio mewn partneriaeth i adfer y mannau hyn a mynd i'r afael â heriau allweddol fel ceirw a rhywogaethau goresgynnol.
- Trawsnewid Parciau Cenedlaethol newydd a phresennol yr Alban i hybu adferiad natur ar raddfa fawr.
- Cyflwyno Scottish Nature Network gydag ardaloedd gwarchodedig presennol yn ganolog iddo.



### Moroedd y DU

- Cynnal adolygiad o Ardaloedd Gwarchodaeth Arbennig yn yr amgylchedd morol. Ni wnaed hyn yn achos o leiaf 49 o rywogaethau.
- Sicrhau bod trefniadau rheoli effeithiol ar waith, yn enwedig ymhob Ardal Forol Warchodedig ar y môr erbyn 2024, gan gael gwared ar weithgarwch niweidiol lle mae cynefinoedd gwely'r môr yn brif achos dros warchodaeth. Rhaid cael amcanion cadwraeth a monitro manwl ym mhob safle o fewn y rhwydwaith.
- Llenwi bylchau yn y rhwydwaith o Ardaloedd Morol Gwarchodedig ar gyfer adar môr, yn enwedig mewn ardaloedd gwarchodedig sy'n bwysig i rywogaethau ysglyfaeth adar môr a'u cynefinoedd. Hefyd, yn benodol, dynodi, gweithredu, a gorfodi Ardaloedd Morol Gwarchodedig i warchod cynefinoedd carbon glas.
- Cyflawni ar y rhwydwaith o Warchodfeydd Morol Gwarchodedig Iawn (HPMA), sy'n cael gwared bob gweithgarwch niweidiol a dinistriol yn y môr, gan alluogi adferiad cynefinoedd a rhywogaethau, sy'n rhoi gwarchodaeth o'r radd flaenaf.



### Tiriogaethau Tramor y DU


- Sicrhau cyllid tymor hir ar gyfer rhaglen Blue Belt Llywodraeth y DU, sy'n helpu i reoli, monitro, gwylio a gorfodi dros 4 miliwn cilometr sgwâr o Ardaloedd Morol Gwarchodedig ar draws y Tiriogaethau.
- Efelychu llwyddiant y Blue Belt gyda rhaglen ardaloedd gwarchodedig ar y tir yn Nhiriogaethau Tramor y DU. Bydd hyn yn rhoi cymorth technegol a chyllid i alluogi Llywodraethau a chymunedau'r Tiriogaethau i warchod a rheoli eu prif gynefinoedd yn well, a chyfrannu at y targed byd-eang i warchod 30% o dir a môr erbyn 20230.
- Cynnig cyfleoedd ar gyfer secondiadau a chyfnewid technegol i reolwyr ardaloedd gwarchodedig yn y DU a Thiriogaethau Tramor y DU, i rannu gwersi a gwella galluoedd.



Gwarchodfa Natur Bempton Cliffs yr RSPB
David Tipling (rspb-images.com)


# Y sefyllfa bresennol

## Y Deyrnas Unedig





Mae 11% o dir y DU wedi'i ddynodi ar gyfer natur ond dim ond 5% o dir y DU sydd wedi'i warchod a'i reoli'n effeithiol ar gyfer natur.4 Mae hyn ymhell o'r targed o 30% y mae holl lywodraethau'r DU wedi ymrwymo i'w gyrraedd erbyn 2030.

## Lloegr





Mae 8% o dir wedi'i ddynodi ar gyfer natur. Fodd bynnag, dim ond 38% o Safleoedd o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig (SoDdGA) sydd mewn cyflwr ffafriol. Nid oes tystiolaeth ddigonol ar adferiad Safleoedd o'r fath, felly ni allwn fod yn hyderus bod mwy na rhyw 3% o dir yn Lloegr yn cael ei reoli'n effeithiol ar gyfer natur.

## Yr Alban





Mae 18% o dir wedi'i ddynodi ar gyfer natur yn yr Alban, gyda thua 65% o nodweddion dynodedig mewn cyflwr da. Mae un o bob pump o nodweddion gwarchodedig yn yr Alban mewn cyflwr anffafriol o hyd. Mae amlder monitro mewn ardaloedd gwarchodedig wedi lleihau yn ystod y degawd diwethaf, oherwydd bod llai o adnoddau ar gael.

## Cymru




Mae 10.6% o dir wedi'i ddynodi ar gyfer natur, ond dim ond 20% o nodweddion safleoedd gwarchodedig sydd mewn cyflwr ffafriol, gyda 30% yn anffafriol a 49% yn anhysbys (yn bennaf oherwydd tystiolaeth ac adnoddau annigonol).[5]

## Gogledd Iwerddon




Mae 9% o dir wedi'i ddynodi ar gyfer natur. Mae 55% o nodweddion Ardaloedd o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig (ASSI) mewn cyflwr ffafriol, mae 36% mewn cyflwr anffafriol, ac mae 7% heb eu hasesu.[6]

## Tiriogaethau Tramor y DU



Mae gan Lywodraeth y DU raglen o safon ryngwladol i sefydlu a rheoli ardaloedd morol gwarchodedig enfawr ac sy'n cael eu harwain yn lleol yn Nhiriogaethau Tramor y DU: y rhaglen 'Blue Belt'. Mae hon yn awr yn cynnwys rhai o'r ardaloedd gwarchodedig mwyaf yng nghefnforoedd Iwerydd, Tawel ac India. Nid oes rhaglen gyfatebol ar gael, i ddarparu cyllid a chymorth technegol i ardaloedd daearol gwarchodedig. Mae llawer o Diriogaethau wedi gwarchod llai na 10% o arwynebedd eu tir. Mae angen cymorth ar gyfer mesurau gwarchod ychwanegol sy'n cael eu harwain yn lleol. Nid oes rhaglen gyfnewid ddwyffordd yn weithredol rhwng rheolwyr ardaloedd gwarchodedig yn y DU a'r Tiriogaethau.

## Moroedd y DU



### Y DU

Mae dros 30% o foroedd y DU wedi'u cynnwys o fewn dynodiadau ardaloedd gwarchodedig; fodd bynnag, mae llawer ohonynt heb eu rheoli'n effeithiol ar gyfer natur. Ledled y DU, nid yw llywodraethu'n cyrraedd [targedau byd-eang](#) yn ogystal â chyflawni 4 yn unig o'r 15 dangosydd o iechyd cefnforoedd.

### Lloegr

Mae tua 40% o foroedd Lloegr o fewn Ardal Forol Warchodedig. Fodd bynnag, nid oes rheoli a gorfodi effeithiol yn digwydd yn y rhan fwyaf ohonynt. Mae'r Llywodraeth wedi ymrwymo i weithredu mesurau rheoli effeithiol mewn 40 o'i hardaloedd morol gwarchodedig ar y môr erbyn 2024.

### Cymru

Mae gan Gymru Ardaloedd Morol Gwarchodedig sy'n cynnwys 69% o ddyfroedd y glannau (hyd at 12 milltir forol), fodd bynnag, dim ond 46% o nodweddion gwarchodedig yng Nghymru sydd mewn cyflwr ffafriol.[7] Mae tua 50% o holl ddyfroedd Cymru o fewn Ardaloedd Morol Gwarchodedig.

### Gogledd Iwerddon

Mae 36% o foroedd Gogledd Iwerddon o fewn Ardal Forol Warchodedig, ond bernir mai dim ond 4.48% sy'n cael eu rheoli'n ffafriol.

### Yr Alban

Mae dros 37% o foroedd yr Alban wedi'u dynodi fel ardaloedd gwarchodedig, gyda 28% yn dod o fewn y Rhwydwaith Ardaloedd Morol Gwarchodedig. Fodd bynnag, nid oes llawer sy'n cael eu rheoli'n effeithiol ar gyfer natur. Mae ymrwymiadau newydd Llywodraeth yr Alban yn golygu bod yn rhaid i'r rhwydwaith presennol o Ardaloedd Morol Gwarchodedig gael mesurau rheoli pysgodfeydd mewn grym erbyn mis Mawrth 2024.



# Bwyd a ffermio

**Cornchwiglen**
Mark Hamblin (rspb-images.com)

# Beth ydym ni ei eisiau?


Erbyn 2030, mae ein ffermydd yn **gyforiog o fywyd gwyllt**, yn **cynhyrchu bwyd o ansawdd da** sy'n diwallu ein hanghenion fel rhan o **system fwyd fyd-eang deg**, sy'n **helpu adferiad natur a'r symudiad tuag at economi sero net**.

# Sut fyddwn yn gwybod ein bod wedi cyflawni?

- **Mae deddfwriaeth a pholisi uchelgeisiol i reoli ffermio a thir ar waith,** sy'n helpu i drawsnewid sut yr ydym yn ffermio ac yn rheoli tir fel y gallwn wella'r blaned, a bwydo ein hunain yn dda.
- **Mae cyllid digonol ar** i gynnal polisïau uchelgeisiol, ynghyd â diddymu ac ailddosbarthu cymorthdaliadau amaethyddol niweidiol, a fydd yn arwain at adferiad amgylcheddol.
- **Bydd rheolaeth natur a hinsawdd bositif** yn cael ei hategu **ar hyd y gadwyn gyflenwi gan benderfyniadau busnes moesegol.**
- **Bydd ffermydd yn cynnal poblogaethau iach o rywogaethau,** gan gynnwys poblogaethau o bryfed, adar, planhigion a mamaliaid sy'n ffynnu. Gallwn fesur yr adferiad hwn drwy adnoddau fel y mynegai adar ffermdiroedd.
- **Bod y cysyniad o fwyta cyfeillgar i natur -** bwyta llai o fwydydd sy'n cael effaith ddwys ar yr hinsawdd (e.e. bwyta llai o gig), a dewis bwyd sy'n cael ei gynhyrchu mewn ffordd sy'n gyfeillgar i fywyd gwyllt **- yn ddealladwy ac yn hygyrch i bawb.**

# Astudiaethau achos ysbrydoledig

## Lloegr



Bras Melyn
Ben Andrew (rspb-images.com)

### Hope Farm

Mae Hope Farm yn enghraifft arloesol o ffermio natur gyfeillgar. Ers 20 mlynedd bellach, mae hi wedi cael ei rhedeg fel fferm deuluol sy'n gyfeillgar i fywyd gwyllt ac sy'n cynhyrchu elw. Rhwng 2000 a 2011, mae gwaith ar y fferm wedi caniatáu i gynefinoedd bywyd gwyllt fel gwrychoedd ac ymylon blodau gwyllt wella, ac mae adar ffermdir a gloÿnnod byw wedi dychwelyd yn eu niferoedd. Mae'r mynegai adar ffermdir yn Hope Farm (mesur o newid yn niferoedd yn nhiriogaethau adar ffermdir sy'n bridio) wedi treblu ac mae nifer y gloÿnnod wedi cynyddu bedair gwaith. Er 2011, rydym wedi ymdrechu i ganfod datrysiadau sy'n seiliedig ar natur i fynd i'r afael â heriau ffermio fel gwella ffrwythlondeb y pridd, a lleihau plâu a chlefydau, heb roi'r gorau i gynhyrchu ar y tir. Nid yw'r fferm yn awr yn defnyddio pryfladdwyr, mae wedi lleihau'r defnydd o wrtaith anorganig, ac mae'n dal i gynhyrchu elw, ac yn cymharu'n dda â busnesau lleol tebyg o ran cnydau ac elw.

*Mae Hope Farm yn brosiect sy'n cael ei arwain gan yr RSPB. Mae'n cael ei gefnogi gan ymddiriedolaethau ac aelodau sydd wedi helpu i ariannu'r gost o brynu a chynnal treialon ymchwil ar y fferm. Mae'r rheolaeth amgylcheddol yn cael ei hategu gan gyllid amaeth-amgylcheddol.*

## Cymru



Blaen-y-coed
Ian S Geograph.org.uk

### Adfer mawndir mewn system fugeiliol ucheldirol ym Mlaen y Coed

Er 2017, mae prosiect arloesol wedi bod yn gweithio i adfer mawndiroedd yn rhan uchaf Dyffryn Conwy. Y nod yw creu cynefin iachach i rywogaethau adar sy'n dirywio. Y teulu Ritchie yw tenantiaid yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol ym Mlaen y Coed, ac maent yn ffermio'r cynefin hwn fel rhan o system fugeiliol yr ucheldiroedd, o fewn Ardal Gadwraeth Arbennig y Migneint. Mae hon yn ardal o rostir a gorgors o bwys rhyngwladol. O'i reoli'n briodol, mae'r cynefin hwn yn fuddiol i bobl: storio carbon, bywyd gwyllt, hidlo dŵr ac amddiffyn rhag llifogydd. Drwy ddefnyddio'u peiriannau fferm eu hunain treuliodd y teulu bedwar gaeaf yn blocio ffosydd draenio a gwlis dwfn wedi erydu, gan greu mân argaeau a phyllau bychain i wlychu'r dirwedd unwaith eto. Cafodd yr holl waith ei wneud gan y teulu ei hun, gan ddefnyddio eu peiriannau eu hunain. Gwelwyd gwelliant dramatig yn y cynefin. Mae pyllau'n ffurfio unwaith eto, ac mae planhigion arbenigol fel migwyn, plu'r gweunydd a chwys yr haul yn ffynnu unwaith eto. Mae'r cynefin hwn yn ddelfrydol ar gyfer cwtiaid aur a gylfinirod. Yn 2021, dychwelodd y ddwy rywogaeth, a bridio'n llwyddiannus am y tro cyntaf er 1990.

*Mae'r gwaith hwn yn gydweithrediad rhwng RSPB Cymru, Ymddiriedolaeth Genedlaethol Cymru a'r teulu Ritchie. Cafodd ei ariannu'n rhannol drwy Gynllun Rheoli Cynaliadwy Mawndiroedd Cymru, ac mae'n cael ei redeg gan Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri.*

## Gogledd Iwerddon



Gweirglodd ar fferm natur gyfeillgar yn Swydd Down
Sairah Tariq (rspb-images.com)

### Cynlluniau amaeth-amgylcheddol llwyddiannus

Yng Ngogledd Iwerddon, mae nifer o adar ffermdir sy'n bwyta hadau fel breision melyn a golfanod y mynydd wedi lleihau'n sylweddol, o ganlyniad i ddulliau ffermio dwys. Cafodd y breision melyn eu heffeithio'n fwyaf arbennig. Mae tir ffermio yn nwyrain Swydd Down yn arbennig o bwysig am ei fod yn un o'r cadarnleoedd olaf ar gyfer ffermio âr a chymysg. Dechreuodd yr RSPB weithio â'r gymuned ffermio yn yr ardal hon yn 2005, i helpu i wella gwybodaeth ac annog arferion ffermio cyfeillgar i fywyd gwyllt. Rhwng 2006 a 2011, bu cynnydd o 79% yn niferoedd y breision melyn ar ffermydd o dan Gynllun Rheoli Cefn Gwlad Gogledd Iwerddon. O dan y cynllun hwn, roedd ffermwyr yn cael y lefelau uchaf o gyngor ar reoli cynefinoedd. Dangosodd ymchwil hefyd fod adar eraill sy'n bwyta hadau fel golfanod y mynydd ac adar y to wedi elwa ar gynlluniau amaeth-amgylcheddol (AES). Erbyn hyn, mae 22 o ffermydd yn Swydd Down yn defnyddio AES i greu cynefinoedd bwydo a nythu i adar ffermdir sy'n bwyta hadau.

*Mae'r gwaith hwn a oedd yn cael ei arwain gan yr RSPB wedi cael eu gefnogi drwy gyllid gan DAERA.*

## Yr Alban



Pioden y môr
Paul Turner (rspb-images.com)

### Menter gwlyptiroedd a rhydwyr Strathspey

Ers ei lansio yn 2009, mae'r prosiect partneriaeth hwn wedi bod yn gweithio â ffermwyr, tyddynwyr ac asiantau lleol eraill i wella cynefinoedd ar ffermydd ar gyfer poblogaethau pwysig yr ardal o gornchwiglod, giachod cyffredin, gylfinirod, piod y môr a phibyddion coesgoch. Bu dirywiad dychrynllyd yn y rywogaethau hyn ledled y DU. Ond yn Strathspey, mae poblogaethau sylweddol o hyd, diolch yn bennaf i'r systemau ffermio a geir yno. Pob pum mlynedd, rydym yn cynnal arolwg manwl o'r adar rhydio sy'n bridio ar dros 100 o ffermydd, ac mae dros 50 o ffermwyr yn gweithio mewn ffyrdd sy'n ffafrio adar rhydio, drwy gynlluniau amaeth-amgylcheddol. Beth bynnag fo natur y ffermydd, mae ganddynt i gyd y potensial i gyfrannu at dirwedd natur bositif.

*Mae'r prosiect hwn yn bartneriaeth rhwng Nature Scot, RSPB, Awdurdod Parc Cenedlaethol y Cairngorms ac SAC Consulting.*

# Beth sydd angen inni ei wneud?

## Mae angen i lywodraethau'r DU:

- **Diwygio polisi bwyd a ffermio i hybu ffermio natur bositif ac i drawsnewid ein ffordd o reoli tir.** I wneud hyn, rhaid iddynt:
  - **Cyflwyno trywydd clir** sy'n dangos sut y bydd y sector ffermio'n trawsnewid yn ddiogel i fod yn natur bositif erbyn 2030;
  - **Rhoi sylw i gymorthdaliadau amaethyddol** fel y bydd arian yn gwobrwyo rheolaeth tir natur gyfeillgar yn hytrach nag arferion niweidiol;
  - **Pennu targedau manwl a mesuradwy;**
  - **Buddsoddi mewn monitro a gwerthuso,** a defnyddio canfyddiadau i wella'r cynlluniau ffermio'n barhaus;
  - **Sicrhau rheoleiddio a gorfodi effeithiol,** fel y bydd gweithredu dilys ar lawr gwlad.
- **Cyflwyno mesurau yn y farchnad i wella cadwynau cyflenwi ac i hybu bwyta natur gyfeillgar.** Mae hyn yn golygu bwyta llai o fwydydd â'r ôl troed hinsawdd uchaf (e.e. cig a chynnyrch llaeth) a chael cynnyrch o ffermydd sy'n mabwysiadu arferion ffermio natur gyfeillgar.
- **Helpu'r cyhoedd i fabwysiadu patrymau bwyta natur gyfeillgar** drwy bwysleisio'r cysylltiad rhwng ffermio, yr hinsawdd a natur. Sicrhau bod modd i bawb fwynhau diet iach, natur gyfeillgar.
- **Helpu ffermwyr, tyfwyr a rheolwyr tir i gymryd camau natur bositif i reoli o leiaf 10% o'r fferm ar gyfer bywyd gwyllt:**
  - Gwarchod a sicrhau cyflwr ecolegol da'r cynefinoedd lled-naturiol presennol.
  - Gwneud y gorau o werth terfynau ac ymylon caeau.
  - Creu a gwella nodweddion gwlyb.
  - Creu cynefinoedd cyfoethog mewn blodau ar o leiaf 4% o'r fferm. Bydd y rhain yn helpu peillwyr holl bwysig ac ysglyfaethwyr naturiol plâu.
  - Creu cynefinoedd cyfoethog mewn hadau ar o leiaf 2% o'r fferm.
  - Datblygu cynefinoedd mewn caeau, fel banciau chwilod, gwyndynnydd a choed mewn caeau.
- **Helpu ffermwyr, tyfwyr a rheolwyr tir i reoli ffermydd cyfan mewn ffyrdd natur bositif.** Mae hyn yn cynnwys rheoli priddoedd mewn ffyrdd sy'n dda i bryfed a charbon, rheoli plâu mewn ffyrdd natur gyfeillgar, a defnyddio technegau ffermio organig.
- **Hybu dysgu gan gymheiriaid ymhlith ffermwyr** i rannu technegau natur gyfeillgar.
- **Buddsoddi mewn ymchwil a datblygu** i wella'r sylfaen dystiolaeth ac i ddatblygu technegau cynaliadwy, natur gyfeillgar. Dylai hyn gynnwys opsiynau technoleg isel a chost isel.
- **Ymrwymo i darged uchelgeisiol i leihau defnydd o blaleiddiaid** drwy'r Cynllun Gweithredu Cenedlaethol ar Ddefnydd Cynaliadwy o Blaleiddiaid. Dylai ystyried gwenwyndra yn ogystal â faint a ddefnyddir.



**Hope Farm yr RSPB**
Andy Hay (rspb-images.com)

## Camau i wledydd penodol sydd angen eu cymryd:



### Lloegr

- Cyflawni gweledigaeth y llywodraeth o 2018. Mae hyn yn cynnwys ailgyfeirio cymorthdaliadau amaethyddol i daliadau cyhoeddus am nwyddau cyhoeddus drwy gynllun rheoli tir amgylcheddol (ELM) uchelgeisiol.
- Helpu ffermwyr i leihau neu ddileu plaleiddiaid, gan gynnwys drwy'r Cymhelliad Ffermio Cynaliadwy i annog mabwysiadu rheolaeth plâu integredig natur gyfeillgar (IPM). Dylai'r cymorth hwn gynnwys cyngor annibynnol ac ymchwil i opsiynau heb gemegau, a help i gymryd camau sy'n annog bywyd gwyllt buddiol. Monitro'r defnydd a wneir o IPM a'i effaith ar y defnydd o blaleiddiaid.
- Gweithredu argymhellion y Strategaeth Fwyd Genedlaethol yn llawn i hybu newidiadau yn y system fwyd. Helpu'r newid i system natur a hinsawdd gyfeillgar a all fwydo pawb yn dda.



### Cymru

Rhaid i'r Cynllun Ffermio Cynaliadwy newydd a'r Bil Amaethyddiaeth:

- Cynnwys rheoliadau sy'n atal rhagor o golledion a niwed i gynefinoedd lled-naturiol yn ogystal â phridd, aer a dŵr.
- Sicrhau bod ffermwyr yn deall a'u bod yn cael eu gwobrwyo am werth eu ffermdir o ran arian cyhoeddus am nwyddau cyhoeddus.
- Datblygu ymagwedd at asesiadau a chynlluniau rheoli ffermydd sy'n cynnal cynefinoedd presennol ac sy'n defnyddio datrysiadau sy'n seiliedig ar natur i fynd i'r afael â heriau amgylcheddol.
- Datblygu dull effeithiol i weithredu synhwyro data o bell a system cymorth cynghorol i baratoi ffermwyr ar gyfer y cynllun newydd.
- Galluogi ffermwyr i reoli eu ffermdir fel ystod o gynefinoedd, hybu cynaliadwyedd a chynhyrchu bwyd amrywiol sy'n cyd-fynd yn well ag ymddygiad defnyddwyr, ac sy'n helpu i greu sector amaethyddiaeth fwy cydnerth.



### Gogledd Iwerddon

- Cytuno ar Ddeddf Amaethyddiaeth newydd i Ogledd Iwerddon i osod fframwaith cyfreithiol ar gyfer ffermio a rheolaeth gynaliadwy. Rhaid i hwn fod yn seiliedig ar yr egwyddor 'arian cyhoeddus am nwyddau cyhoeddus'.
- Sicrhau bod arian yn cael ei ailgyfeirio yn y dyfodol i alluogi ffermwyr a rheolwyr tir eraill i weithio mewn ffyrdd sy'n adfer ac yn gwarchod natur, yn mynd i'r afael â newid yn yr hinsawdd ac yn cynhyrchu bwyd mewn ffordd gytbwys a chynaliadwy.
- Cyflawni'r ymrwymiadau hyn o fewn amserlenni sydd wedi'u diffinio'n bendant gyda chynigion manwl ar sut y bydd mesurau'n adeiladu ar gynlluniau amaeth-amgylcheddol presennol.
- Hyrwyddo Strategaeth Fwyd Gogledd Iwerddon gyda gogwydd ar fwyta mwy natur garedig.



### Yr Alban


- Cynnal y lefel bresennol o gyllid cyhoeddus ar gyfer ffermio i sicrhau bod y rhan fwyaf o'r gyllideb yn cael ei gwario ar hybu rheolaeth tir a dulliau ffermio sy'n natur gyfeillgar ac sy'n lleihau allyriadau nwyon tŷ gwydr. Dylai'r gronfa hon gynnwys taliadau penodol, wedi'u targedu i adfer bywyd gwyllt ffermdir sy'n dirywio.
- Cynyddu faint o arian sy'n cael ei wario ar gyngor, trosglwyddo gwybodaeth a hyfforddiant.
- Cynyddu arwynebedd tir organig o 2% i 10% erbyn 2030.
- Gweithredu newid i'r system fwyd drwy'r Ddeddf Cenedl Bwyd Da (2022), er enghraifft drwy gynlluniau bwyd trawsbynciol ac uchelgeisiol neu drwy Gomisiwn Bwyd newydd yr Alban, i annog newid i fathau mwy natur gyfeillgar o amaethyddiaeth a dewis mewn diet.



**Bras y cyrs**
Ben Andrew (rspb-images.com)

# Y sefyllfa bresennol

## Y Deyrnas Unedig




Mae 71% o dir y DU yn ardal amaethyddol.





Amaethyddiaeth yw'r ffactor mwyaf arwyddocaol mewn colledion i fywyd gwyllt. Ers y 1970au, mae'r mynegai adar ffermdir wedi mwy na haneru.




Mae amaethyddiaeth yn cynhyrchu 11% o allyriadau nwyon tŷ gwydr y DU.[8] Mae hefyd yn ffactor pwysig mewn llygredd dŵr ac allyriadau amonia.

## Lloegr




Mae tir amaethyddol yn cyfrif am 69% o arwynebedd Lloegr.




Erbyn 2017, roedd mynegai adar ffermdir Lloegr wedi gostwng 55% yn is na'i lefel yn 1970, gyda gloÿnnod byw ffermdir wedi gostwng 10% ar gyfartaledd er 1990.




Mae amaethyddiaeth yn gyfrifol am tua 9% allyriadau nwyon tŷ gwydr Lloegr.


## Cymru




Mae tir amaethyddol yn cyfrif am 88% o arwynebedd tir Cymru.




Mae hanner y rhywogaethau adar ffermdir wedi dioddef colledion mewn tiroedd bridio er 1994.9 Mae 90% o gynefinoedd glaswelltir, lled-naturiol, caeedig wedi'u colli. Yn y 1980au yn unig, collwyd 25% o wrychoedd.





Roedd amaethyddiaeth yn cyfrif am 12% o allyriadau nwyon tŷ gwydr y wlad yn 2018.

## Gogledd Iwerddon




Mae tua 76% o gefn gwlad Gogledd Iwerddon yn cael ei ffermio mewn rhyw ffordd.





Mae 35% o'r adar ffermdir yng Ngogledd Iwerddon ar y Rhestr Goch, yn ôl asesiad y Birds of Conservation Concern.[10]




Mae amaethyddiaeth yn cyfrif am 27% o allyriadau nwyon tŷ gwydr Gogledd Iwerddon, y gyfran fwyaf o allyriadau mewn unrhyw sector.

## Yr Alban




Mae tua 70% o dir yr Alban yn dir amaethyddol.[11]




Mae poblogaethau gylfinirod wedi gostwng 59% rhwng 1995 a 2018 – ar un adeg roedd yn aderyn cyffredin ar ffermdir. Mae adar ffermdir eraill hefyd wedi dirywio, fel cornchwiglod (56%) ac ydfrain. Mae adar a oedd yn gyffredin ar un adeg fel rhegan yr ŷd a bras yr ŷd bellach wedi'u cyfyngu i ynysoedd yr Alban yn bennaf.




Mae allyriadau amaethyddol yn cyfrif am 16% o gyfanswm yr allyriadau yn yr Alban.

# Pysgodfeydd



**Arfordir Norfolk**
Ernie Janes (rspb-images.com)

## Beth ydym ni ei eisiau?

Erbyn 2030, **mae pysgodfeydd yn cael ei rheoli fel y byddant yn cynnal poblogaethau o adar môr sy'n ffynnu, ac o fudd i natur a'r hinsawdd.**

# Sut fyddwn yn gwybod ein bod wedi cyflawni?

- **Pysgota am lymrïaid,** pysgod bach tebyg i lyswennod, y mae llawer o adar môr yn dibynnu arnynt am fwyd, wedi'i wahardd yn nyfroedd y DU.
- **Cyngor** yn cael ei roi gan Gyngor Rhyngwladol Archwilio'r Môr **yn cael ei ddilyn i reoli stoc pysgod y DU.**
- **Mae Cynlluniau Rheoli Pysgodfeydd yn cael eu gweithredu** yn achos rhywogaethau y mae adar yn dibynnu arnynt am fwyd.
- **Mae nifer yr adar sy'n cael eu dal yn ddamweiniol mewn offer pysgota (a elwir yn sgil-ddalfeydd) yn lleihau,** ac mae niferoedd yr adar môr yn dechrau dangos gwelliannau.
- **Mae gweithgarwch pysgota'n cael ei fonitro'n effeithiol** yn y môr drwy ddefnyddio monitro electronig o bell gyda chamerâu.
- **Mae gweithgarwch niweidiol yn cael ei dileu mewn Ardaloedd Morol Gwarchodedig arfordirol** os mai rhywogaethau gwely'r môr a chynefinoedd yw'r prif reswm dros warchodaeth.
- **Mae lefelau pysgod yn cyrraedd Statws Amgylcheddol Da** o dan Strategaeth Forol y DU. Mae hyn yn golygu bod moroedd yn lân, iach a chynhyrchiol.
- **Mae arferion pysgota'n natur bositif, yn dda i'r hinsawdd, ac yn ymgysylltu â chymunedau arfordirol.**


# Astudiaethau achos ysbrydoledig

### Moroedd y DU


**Môr-wennol bigddu**
David Tipling (rspb-images.com)

### Gwarchod ardaloedd bwydo adar môr yn yr Alban.

Ym mis Rhagfyr 2020, cafodd 12 Ardal Gwarchodaeth Arbennig (SPA) morol, math o Ardaloedd Morol Gwarchodedig, eu ffurfio'n swyddogol. Mae'r ardaloedd hyn yn gwarchod ardaloedd allweddol sy'n cael eu defnyddio gan adar môr i gael bwyd a lloches yn nyfroedd yr Alban. Mae'r safleoedd hyn yn hanfodol i oroesiad adar sy'n bridio ac yn gaeafu. Maent i'w cael yn holl ddyfroedd yr Alban, o'r Solway Firth yn y de, i'r Bluemill Sound a'r Colgrave Sound yn y gogledd. Bydd yr SPAau hyn yn diogelu ardaloedd bwydo a gaeafu i dros 30 o wahanol rywogaethau o adar môr, gan gynnwys môr-wenoliaid, hwyaid cynffon hir, a phalod. Yn awr mae angen ymrwymiadau DU gyfan i warchod ardaloedd bwydo adar môr.


**Hugan y gogledd**
Andrew Parkinson (rspb-images.com)

# Beth sydd angen inni ei wneud?

## Mae angen i lywodraethau'r DU:

- **Sicrhau cytundeb pedair cenedl i gau moroedd y DU (Parth Economaidd Neilltuedig y DU) rhag pysgodfeydd diwydiannol llymrïaid).** Mae adar môr fel palod yn dibynnu ar lymrïaid am fwyd.
- **Mabwysiadu ymagwedd at reoli pysgodfeydd sy'n rhoi pwyslais ar ecosystemau,** i helpu i gyrraedd Statws Amgylcheddol Da ac i hybu adferiad natur.
- **Dynodi a/neu warchod a rheoli safleoedd yn effeithiol** i warchod rhywogaethau allweddol, ac yn enwedig cynnal diet adar môr.
- **Asesu a rheoli gweithgarwch pysgodfeydd sy'n effeithio ar adar môr,** yn enwedig safleoedd gwarchodedig.
- **Datblygu Cynlluniau Rheoli Pysgodfeydd** o dan y Ddeddf Pysgodfeydd newydd ar gyfer rhywogaethau sy'n hanfodol i ddiet adar môr, gan gynnwys penwaig, corbenwaig, sardîns, a physgod eraill sy'n fwyd i adar. Integreiddio Ardaloedd Morol Gwarchodedig i'r cynlluniau hyn.
- **Gweithredu cynllun lliniaru sgil-ddalfeydd i'r DU** sy'n cynnwys targedau uchelgeisiol i **leihau nifer y rhywogaethau sensitif sy'n cael eu dal mewn rhwydi pysgota.** Sicrhau bod adnoddau ar gael i wireddu hyn.
- **Cyflwyno newidiadau i arferion pysgota** i sicrhau bod fflydoedd pysgota risg uchel yn defnyddio arferion gorau i leihau eu heffaith. Helpu'r diwydiant pysgota i dreialu mesurau newydd i atal sgil-ddalfeydd o fywyd gwyllt.
- **Rheoli'r holl Ardaloedd Morol Gwarchodedig yn effeithiol. Yn benodol rhoi diwedd ar weithgarwch niweidiol mewn ardaloedd morol gwarchodedig ar y môr.** Mae hyn yn cynnwys rhoi'r gorau i bysgota ag offer sy'n cael ei lusgo ar hyd y gwaelod, lle mae gwely'r môr yn nodwedd warchodedig.
- **Cyflwyno trefniadau monitro effeithiol** ar gyfer gweithgarwch pysgota yn y môr, drwy fonitro electronig o bell â chamerâu.
- **Datblygu strategaethau i bysgodfeydd sy'n lleihau'r effeithiau ar natur a'r hinsawdd.** Mae hyn yn cynnwys lleihau'r pwysau a achosir gan offer sy'n cael ei lusgo ar hyd y gwaelod, datgarboneiddio'r fflyd pysgota, rhoi cymhellion i wneud enillion carbon ar ffurf uwchraddio peiriannau a thechnoleg werdd, a rhoi diwedd ar ad-daliadau treth ar ddefnydd o danwydd ffosil i'r diwydiant, drwy newid i bysgota carbon isel.
- **Buddsoddi mewn ymchwil** i wella'r dystiolaeth a fydd yn sail i reoli pysgodfeydd.


Seabirds, Scotland
Phil Cutt (rspb-images.com)


# Y sefyllfa bresennol

Moroedd y DU



## Y DU

Yn asesiad Strategaeth Forol y DU yn 2009, methodd 11 o'r 15 dangosydd a ddefnyddir i fesur iechyd ein moroedd â chyflawni Statws Amgylcheddol Da. Roedd hyn yn cynnwys sgôr coch i'r stoc pysgod ac adar môr, gydag adar môr yn symud i ymhellach oddi wrth y targed yn hytrach nag yn nes ato.





Dim ond 35% o'r stoc a negodwyd ar gyfer pysgodfeydd y DU yn 2022 a oedd yn unol â'r cyngor gan Gyngor Rhyngwladol Archwilio'r Môr.

Yn 2022, aseswyd poblogaethau llymrïaid ym Môr y Gogledd a gwelwyd eu bod mewn cyflwr gwael. Argymhellwyd y dylai ardaloedd allweddol yn nyfroedd y DU weithredu polisi dim pysgota wedi'i dargedu (gydag ychydig o bysgota'n cael ei ganiatáu i ddibenion monitro'n unig).


Bob blwyddyn, mae miloedd o adar môr y DU yn cael eu dal ac yn marw mewn offer pysgota. Er gwaethaf blynyddoedd o addewidion, nid oes cynllun pendant i fynd i'r afael â hyn. Fodd bynnag, mae'n ddigon hawdd i'w ddatrys.

Mae monitro effeithiol mewn pysgodfeydd risg uchel ar gyfer sgil-ddalfeydd adar môr yn llai nag 1%. Mae hyn yn golygu nad ydym yn gwybod beth yw gwir lefelau'r sgil-ddalfeydd, ac nid oes rhaglen bwrpasol ar waith i atal marwolaethau adar môr.





Pâl
Drew Buckley (rspb-images.com)



# Newid yn yr hinsawdd

Strontian Glen
David Tipling (rspb-images.com)

# Beth ydym ni ei eisiau?

Erbyn 2030, **mae'r argyfwng natur a hinsawdd yn cael ei ddatrys i gael byd natur bositif, ar y trywydd i gyflawni sero net, ac sy'n addasu ar gyfer hinsawdd cynhesach.** Cyflawnir hyn drwy ddatrysiadau sy'n seiliedig ar natur ar gyfer newid yn yr hinsawdd, ynni adnewyddadwy natur bositif ac amaethyddiaeth a physgodfeydd sy'n gweithio mewn ffordd sy'n cynnal natur, yr hinsawdd a phobl.

# Sut mae llwyddiant yn edrych?

- **Mae tir a môr yn natur bositif ac yn cyfrannu at sero net.**
- **Mae datrysiadau seiliedig ar natur ar gyfer newid yn yr hinsawdd yn cael eu cyflwyno ledled y DU, mewn gwahanol gynefinoedd fel coetiroedd, mawndiroedd a morfeydd.** Maent o fudd i natur a phobl, ac yn ein helpu i liniaru ac addasu i newid yn yr hinsawdd.
- **Mae ein hymagwedd at gadwraeth yn fwy dynamig.** Mae'n chwilio am y canlyniadau cyfoethocaf a mwyaf priodol i natur i allu ffynnu mewn byd lle mae'r hinsawdd yn newid.
- **Mae newid i ynni natur bositif yn cynnwys camau i adfer a gwarchod cynefinoedd a rhywogaethau, ynghyd â defnydd cynaliadwy o ynni** (ar y tir ac ar y môr). Mae hyn yn digwydd ar y raddfa a'r cyflymder sydd ei angen i gyrraedd sero net erbyn 2045.
- **Mae pobl wedi mabwysiadu patrymau bwyta natur gyfeillgar.** Maent wedi lleihau eu defnydd o'r bwydydd mwyaf dwys o ran yr hinsawdd, fel cig a chynnyrch llaeth, ac yn dewis bwyd sy'n cael ei gynhyrchu ar ffermydd natur a hinsawdd gyfeillgar.

# Astudiaethau achos ysbrydoledig

## Lloegr


Gwarchodfa Natur Medmerry'r RSPB
Colin Wilkinson (rspb-images.com)


### Medmerry

Mae parth arfordirol y DU yn gartref i rai o'n mannau pwysicaf i fywyd gwyllt, yn enwedig cynefinoedd fel morfeydd a gwastadeddau llaid. Maent yn cael eu bygwth gan yr hinsawdd a newid mewn defnydd o dir. Ym Medmerry ar arfordir Gorllewin Sussex, cafwyd cynllun ail-alinio mawr. Yma, torrwyd yr amddiffynfeydd morol traddodiadol, ac arweiniodd hynny at ailffurfio 184 ha o gynefin rhynglanwol. Mae hyn wedi lleihau'r risg o lifogydd i'r dref gyfagos yn sylweddol iawn. Ers creu'r safle, mae adar a bywyd gwyllt arall fel llygod dŵr wedi ffynnu, ac mae'r tir amaethyddol cyfagos hefyd yn cael ei reoli ar gyfer bywyd gwyllt erbyn hyn. Mae Medmerry'n enghraifft arbennig o 'ddatrysiad sy'n seiliedig ar natur' i ddygymod â newid yn yr hinsawdd. Mae o fudd i natur a phobl, ac mae'n helpu i fynd i'r afael ag effeithiau newid yn yr hinsawdd.

*Roedd y prosiect hwn yn bartneriaeth rhwng RSPB Lloegr ac Asiantaeth yr Amgylchedd.*


Gwarchodfa Natur Forsinard yr RSPB
Mike Read (rspb-images.com)

## Cymru




**Gwarchodfa Natur Llyn Efyrnwy'r RSPB**
Jake Stephen (rspb-images.com)

### Adferiad mawndir o'r radd flaenaf ar Ystâd Llyn Efyrnwy

Mae Ystâd Llyn Efyrnwy, ar gyrion Parc Cenedlaethol Eryri, yn cynnwys bron i 25% o Fynyddoedd y Berwyn. Mae'n cynnwys y darnau mwyaf o rostir ucheldirol a gorgors lled-naturiol mwyaf yng Nghymru ac mae wedi'i ddynodi fel Safle o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig (SoDdGA), Ardal Cadwraeth Arbennig (SAC) ac Ardal Gwarchodaeth Arbennig (SPA). Fel rhan o bartneriaeth, mae RSPB Cymru'n adfer yr orgors i gyrraedd "safon aur". Y nod yw adfer yr orgors i gyflwr agos at naturiol i gynyddu'r buddiannau i natur a'r hinsawdd. Bydd hyn hefyd yn rheoli llif y dŵr ac yn atal lliwiad dŵr. Mae dwy ardal eisoes yn rhan o'r Cod Mawndiroedd, a fydd yn sicrhau cyllid tymor hir i gynnal y buddiannau hyn am o leiaf y 65 mlynedd nesaf. Mae'r bartneriaeth wedi gweithio i ail-wlychu bron i 400 ha yn ystod y ddau aeaf diwethaf, a bwriedir parhau i wneud hyn am y pum mlynedd nesaf. Gyda'i gilydd, bydd hyn yn adfer dros 1,400 ha o orgors ar fwy na 4,500 ha o ucheldir. Dros gyfnod o 30 mlynedd, disgwylir i'r gwaith hwn yn atal tua 67,440 tunnell o allyriadau carbon (yn seiliedig ar amcangyfrif o 1.6 tunnell CO2-eq yr ha y flwyddyn).

*Mae'r prosiect yn bartneriaeth rhwng Hafren Dyfrdwy, Cyfoeth Naturiol Cymru ac RSPB Cymru.*

## Gogledd Iwerddon



**Garron** Henry McLaughlin, NIW

### Adfer mawndir Garron Plateau

Prosiect partneriaeth ar raddfa fawr sydd wedi adfer ac adennill 2,000 ha o fawndir ar y Garron Plateau yn Swydd Antrim. O ganlyniad, mae'r safle'n atal 9,000 tunnell o allyriadau carbon y flwyddyn. Yn ogystal â gwella storfeydd carbon, mae hyn wedi helpu i wella ansawdd dŵr amrwd, gan leihau'r angen i drin dŵr, ac mae wedi creu cynefin gwell i rywogaethau sy'n dirywio fel gylfinirod, boadod tinwyn a brithegion y gors. Mae ein hadroddiad Valuing our Peatlands report yn dangos bod pob £1 a fuddsoddir mewn adfer mawndiroedd yn arwain at bron i £4 o fuddiannau cyhoeddus.

*Mae'r prosiect hwn yn rhan o'r prosiect Co-operation Across Borders for Biodiversity (CABB), ac mae'n bartneriaeth rhwng RSPB Gogledd Iwerddon, RSPB yr Alban, BirdWatch Ireland, Gwarchod Gloÿnnod Byw, Northern Ireland Water a Moors for the Future.*

## Yr Alban



**Cwtiad aur**
Richard Revels (rspb-images.com)

### Adfer mawndiroedd y Flow Country

Roedd Flows to the Future yn brosiect partneriaeth pum mlynedd uchelgeisiol, a fu'n adfer ardaloedd o orgorsydd yng nghalon y Flow Country a ddifrodwyd drwy blannu coed anfrodorol. Mae coed wedi'u clirio o dros 2,600 ha o fawndir i alluogi adferiad y fawnog. Mae'r fawnog hefyd wedi'i hadfer drwy flocio hen ddraeniau a gwastatau gwlis wedi erydu. Yn ychwanegol at y buddiannau i fywyd gwyllt a charbon, o'r £11.3 miliwn a wariwyd ar y prosiect, cafodd £4.3 miliwn ei wario yn yr economi leol. Yn ystod y 30 mlynedd, disgwylir y bydd y Gwerth Ychwanegol Gros yn Sutherland a Caithness yn £6.3 miliwn. Mae'r prosiect yn creu cynefin i blanhigion mawnogydd, infertebratau ac adar rhydio fel cwtiaid aur, pibyddion y mawn a phibyddion coeswyrdd.

*Roedd y prosiect yn cael ei arwain gan y Flow Country Partnership.*

## Tiriogaethau Tramor y DU



**Pine Cay, Turks and Caicos**
Ed Marshall (rspb-images.com)

### Mangrofau Anguilla

Yn 2017, cafodd Anguilla, Ynysoedd Prydeinig y Wyryf ac Ynysoedd Turks a Caicos eu dinistrio gan gorwyntoedd Categori 5, ac amcangyfrifwyd fod difrod y storm wedi costio tua $3.6 biliwn. Mae mangrofau'n chwarae rhan bwysig i leihau effeithiau stormydd, er enghraifft drwy leihau uchder ac effaith tonnau. Comisiynwyd adroddiad gan yr Anguilla National Trust (ANT), a ariannwyd gan yr RSPB, i edrych ar blannu mangrofau wedi'i dargedu yng nghyffiniau Ardal Gadwraeth East End Pond i leihau llifogydd. Arweiniodd hyn at blannu mangrofau coch, du a gwyn yn yr ardal. Mae ANT, ynghyd â Llywodraeth Anguilla, wedi cyflwyno rhaglen ehangach i adfer yr arfordir drwy brosiect arall a ariannwyd drwy Darwin-Plus 'cydnerthedd yr ecosystem arfordirol i newid yn yr hinsawdd yn Anguilla', gyda meithrinfa wedi'i sefydlu ar gyfer gwaith adfer ar raddfa fawr yn Anguilla.

*Cafodd y gwaith hwn gydag Anguilla National Trust a'r RSPB ei wneud fel rhan o brosiect Gwlyptiroedd Darwin Plus (2019-22).*

## Moroedd y DU



**Gwarchodfa Natur Pagham Harbour yr RSPB**
Nick Upton (rspb-images.com)

### Gwarchod ac adfer cynefinoedd 'carbon glas'

Mae gan ein moroedd rôl allweddol i'w chwarae i liniaru effeithiau newid yn yr hinsawdd. Er enghraifft, drwy ddal a storio carbon gan ecosystemau morol ac arfordirol. Mae hyn yn cynnwys anifeiliaid a chynefinoedd morol fel morfeydd, gwastadeddau llaid, fforestau lludwymon, gwelyau morwellt, a riffau byw. Bydd gwarchod ac adfer y cynefinoedd "carbon glas" hyn yn arwain at nifer o fuddiannau drwy ddatrysiadau sy'n seiliedig ar natur. Gwelir hyn mewn astudiaethau achos fel Medmerry yn Lloegr (uchod). Mae dulliau eraill yn cynnwys cynyddu gwarchodaeth i rywogaethau sylfaenol i hybu eu Cydnerthedd. Er enghraifft, yn yr Alban, mae Ardaloedd Morol Gwarchodedig wedi'u dynodi ar gyfer pysgod porthiant. Fodd bynnag, mae'r enghreifftiau hyn yn dal yn rhai prin. I elwa'n wirioneddol ar botensial ein moroedd i liniaru newid yn yr hinsawdd, rhaid iddynt gael eu cynnwys yn well ym mholisïau hinsawdd y gwledydd.



**Mae David Douglas, Gwyddonydd Cadwraeth, yn arwain tîm sy'n edrych ar effeithiau fferm wynt**
Andy Hay (rspb-images.com)


# Beth sydd angen inni ei wneud?

## Mae angen i lywodraethau'r DU:

- **Asesu'r gwyddorau hinsawdd a natur diweddaraf** i ddeall y llwybrau i fynd i'r afael â'r ddau argyfwng gyda'i gilydd. Defnyddio'r wybodaeth hon i lywio cynlluniau i roi sylw i golledion natur a newid yn yr hinsawdd gyda'i gilydd.
- **Cydnabod rôl natur ym mholisïau a chynlluniau lliniaru ac addasu i newid yn yr hinsawdd y DU.**
- **Sicrhau bod y camau i fynd i'r afael â newid yn yr hinsawdd yn gydnaws â gwarchod ac adfywio ein byd naturiol.** Mae hyn yn golygu sicrhau y gwneir pob ymdrech i fynd i'r afael ac i addasu i newid yn yr hinsawdd i osgoi niwed i fywyd gwyllt.
  - Er enghraifft, rhaid i Lywodraethau'r DU weithio i sicrhau bod **ffermydd gwynt yn y môr nid yn unig yn osgoi ac yn lleihau niwed, ond eu bod hefyd yn helpu adferiad y moroedd.** Rhaid i ymyrraeth y llywodraeth gynnwys cyfathrebu gwell a chynllunio morol gwell i sicrhau bod datblygiad gwynt yn y môr yn gweithio â'r holl ddefnyddwyr morol eraill.
- Datblygu polisi sy'n **helpu natur i ffynnu, o fewn hinsawdd sy'n newid.** Dylai hyn gynnwys dulliau dynamig i adfer rhywogaethau, datblygu rhwydweithiau o safleoedd gwarchodedig, a gweithgarwch gwylltio. Dylid gweithredu i gynyddu dynameg cymunedau ecolegol.
- **Sicrhau bod y polisïau a'r cyllid cywir ar gael i dir a môr y DU gael eu rheoli'n effeithiol ar gyfer natur a'r hinsawdd.** Mae cynefinoedd pwysig yn cynnwys coetiroedd llydanddail brodorol, mawndiroedd, glaswelltiroedd a chynefinoedd arfordirol a morol fel morfeydd a morwellt.
- **Sicrhau bod prosiectau sy'n defnyddio datrysiadau seiliedig ar natur i liniaru ac i addasu ar gyfer newid yn yr hinsawdd yn dilyn** Canllawiau NBS. Mae hyn yn golygu bod prosiectau sy'n rhoi pwyslais ar natur yn cael eu cyflawni ochr yn ochr â lleihad mewn tanwydd ffosil; mae pob math o gynefinoedd bywyd gwyllt yn cael eu hystyried; a bod prosiectau'n gweithio mewn partneriaeth â chymunedau sy'n hybu neu'n gwella bywyd gwyllt.
- **Cymryd camau i sicrhau bod pobl yn bwyta mewn ffordd natur gyfeillgar.** Mae hyn yn golygu bod pobl yn bwyta cig a chynnyrch llaeth yn unol â chanllawiau bwyta'n iach, gan leihau effaith yr hinsawdd ar ein diet.

**Gweithio ag awdurdodau lleol** i'w helpu i ddefnyddio datrysiadau seiliedig ar natur yn achos newid yn yr hinsawdd mewn pentrefi, trefi a dinasoedd.

**Adeiladu ar waddol Llywyddiaeth y DU o COP26** a dangos arweinyddiaeth ryngwladol er mwyn natur a'r hinsawdd drwy weithredu ymrwymiadau ac addunedau rhyngwladol a chryfhau eu cyflawniad drwy gynghreiriau diplomataidd.



**Mangrof coch**
Ed Marshall (rspb-images.com)

## Gweithredu gan wledydd penodol sydd ei angen:



### Lloegr

- Sicrhau bod cynlluniau Rheoli Tir Amgylcheddol (ELM) yn caniatáu ar gyfer lliniaru a newid yn yr hinsawdd ochr yn ochr â chanlyniadau da i fywyd gwyllt.
- Gweithio ag awdurdodau lleol a'r diwydiant dŵr i sicrhau bod rheoli tir yn gweithio hefyd i addasu ac i liniaru effeithiau newid yn yr hinsawdd.
- Sicrhau bod cymorth ariannol i ddatrysiadau sy'n seiliedig ar natur yn ddigonol i sicrhau eu bod yn effeithiol. Er enghraifft, parhau i fuddsoddi yng Nghronfa Nature for Climate a sicrhau bod cronfeydd yn cael eu dosbarthu.
- Sicrhau bod rheolaeth cynefinoedd ardaloedd gwarchodedig hefyd yn cynnwys lliniaru ac addasu i newid yn yr hinsawdd.
- Rhoi gweledigaeth Cynllun Gweithredu Mawn Lloegr ar waith i sicrhau bod ein mawndiroedd yn diwallu anghenion bywyd gwyllt, pobl a'r blaned. Sicrhau bod yr holl ddefnydd a wneir o fawndiroedd yn cadw'r mawn yn wlyb, ac yn y ddaear.



### Cymru

- Sicrhau bod y Cynllun Ffermio Cynaliadwy newydd yn cynnwys cymhellion i ffermwyr sy'n cynnwys datrysiadau seiliedig ar natur i ddelio â newid yn yr hinsawdd yn eu busnesau ffermio.
- Rhoi'r gorau i losgi ar orgorsydd a chynyddu cyllid i adfer mawndiroedd.
- Gwarchod ac adfer yr hyn sy'n weddill o goetiroedd hynafol a lled-naturiol Cymru. Helpu i greu coetiroedd mewn lleoliadau priodol gyda rhywogaethau brodorol er budd yr hinsawdd, natur a phobl.
- Cynyddu rheolaeth llifogydd naturiol ac ail-alinio wedi'i reoli i roi sylw i lifogydd ac erydu arfordirol.
- Rhedeg rhaglen eang i adfer morwellt i adfer iechyd ein hamgylchedd morol.



### Gogledd Iwerddon

- Cyflwyno Cynllun Gweithredu uchelgeisiol yn ymwneud â'r Hinsawdd i annog lleihad mewn allyriadau ym mhob sector, a helpu natur ar yr un pryd.
- Llunio Cynllun Gweithredu Datrysiadau sy'n Seiliedig ar Natur a chronfa Nature for Climate, i hybu potensial datrysiadau sy'n seiliedig ar natur i fynd i'r afael â newid yn yr hinsawdd.
- Cyflawni Cynllun Buddsoddi mewn Natur. Bydd hwn yn pennu targedau i adfer ac ehangu coetiroedd, mawndiroedd, gwlyptiroedd, cynefinoedd morol ac eraill, ac a fydd yn cyflawni nodau ar gyfer yr hinsawdd, bywyd gwyllt, a phobl.
- Cwblhau Cynllun Buddsoddi Cyfalaf Naturiol Morol, sy'n cynnwys buddsoddiadau mewn rheoli ardaloedd morol gwarchodedig, adfer cynefinoedd morol ac arfordirol, a datrysiadau sy'n seiliedig ar natur i fynd i'r afael â newid yn yr hinsawdd (gan gynnwys defnyddio ecosystemau morol fel dalfa garbon, a rheoli llifogydd arfordirol yn naturiol).



### Yr Alban

- Rhoi diwedd ar losgi ar fawndiroedd a gwerthu mawn yn fasnachol ar gyfer garddwriaeth. Ar yr un pryd, ehangu rhaglen adfer mawndiroedd yr Alban.
- Adfer ecosystemau coetiroedd brodorol yr Alban ac ehangu coetiroedd brodorol yr Alban yn sylweddol bob blwyddyn. Cynnwys gofyniad bod rhywogaethau brodorol yn cynnwys o leiaf 50% o'r holl goed newydd sy'n cael eu plannu.
- Datblygu dull mwy strategol o ran defnydd tir fel bydd allyriadau'n lleihau mewn ffyrdd sy'n llesol yn hytrach na niweidiol i natur.
- Sicrhau bod poblogaethau o adar môr iach a chydnerth yn cynyddu gyda chyfleoedd diogel i fridio'n ddigon pell i ffwrdd oddi wrth rywogaethau goresgynnol. Bydd hyn yn helpu i liniaru effeithiau newid yn yr hinsawdd ar y rhywogaethau hyn.



### Moroedd y DU

- Gweithredu i sicrhau bod y rhwydwaith Ardaloedd Morol Gwarchodedig (MPA) yn magu Cydnerthedd rhag effeithiau newid yn yr hinsawdd, ac yn helpu adferiad y cefnfor, drwy gyflawni Statws Amgylcheddol Da ac adferiad a gwarchodaeth carbon glas.
- Llunio a datblygu strategaeth pysgodfeydd hinsawdd ddoeth gydag amserlen benodol. Bydd hyn yn integreiddio gan ddefnyddio amgylcheddau morol fel storfeydd carbon mewn fframweithiau morol fel Strategaeth Forol y DU.
- Sicrhau bod MPAau yn cael eu rheoli a'u dynodi'n effeithiol mewn ardaloedd pwysig i waredu carbon o'r atmosffer.
- Diwygio trefniadau cynllunio a thrwyddedu morol i integreiddio pryderon am yr hinsawdd a gwerth carbon ecosystemau morol yn well.
- Dilyn argymhelliad yr IPCC a CCC i gynnwys carbon glas yn y rhestr nwyon tŷ gwydr (rhestr o ffynonellau allyriadau, a'u hallyriadau cysylltiedig).



### Tiriogaethau Tramor y DU

- Enwebu adran arweiniol yn llywodraeth y DU gyda chylch gorchwyl i helpu Tiriogaethau Tramor y DU i addasu i hinsawdd sy'n newid.
- Galluogi'r holl Diriogaethau i ymuno â Chytundeb Paris drwy ddarparu cymorth technegol ac ariannol.
- Darparu cymorth ac arweiniad technegol i lywodraethau Tiriogaethau Tramor y DU, i ddatblygu mewn ffordd sy'n gallu dygymod â newid yn yr hinsawdd ac sydd wedi'i seilio gan lywodraethu da.
- Helpu llywodraethau Tiriogaethau Tramor y DU i gydnabod rolau cynefinoedd naturiol fel mangrofau i liniaru ac i addasu i effeithiau newid yn yr hinsawdd.
- Helpu asesiadau trylwyr o'r effaith amgylcheddol a hinsoddol fel sail i benderfyniadau yn achos y system fangrof gyflawn fwyaf yn Nhiriogaethau Tramor y Caribî sy'n cael ei bygwth gan briffordd fawr.




Diwrnod gweithredu byd-eang
Lottie van Grieken (rspb-images.com)

# Y sefyllfa bresennol

## Y Deyrnas Unedig

**80%**

Mae tua 80% o fawndiroedd y DU mewn cyflwr diraddiedig. Mae mawndiroedd y DU ar hyn yn bryd yn ffynhonnell yn hytrach na storfa nwyon tŷ gwydr, ac yn cyfrannu tua 5% o'r holl allyriadau.

**48,266 ha**

Mae morfeydd yn ymestyn am tua 48,266 ha yn y DU. Mae dros 80% o'r morfeydd presennol yn y DU yn cael eu gwarchod. Fodd bynnag, mae'r arwynebedd hwn yn parhau i leihau wrth i lefel y môr godi ac oherwydd gwasgfa arfordirol.

**49%**

Roedd coetiroedd ledled y DU wedi atafaelu 18 miliwn tunnell o garbon yn 2017.[12]

Mae 49% o gyfanswm arwynebedd coetiroedd y DU yn goetiroedd brodorol.[13]

## Lloegr

**80%**

Mae mawndiroedd bron yn naturiol yn cyfrif am 13% yn unig o'r cyfanswm. Gan gynnwys mawndiroedd wedi'u hail-wlychu, mae'r ffigur yn 20%. Fodd bynnag, mae'r mapio'n wael, ac rydym yn bryderus am gyflwr y rhan fwyaf o'r orgors ucheldiroedd a'r rhannau eang o fawndiroedd yr iseldir sy'n cael eu ffermio.

**32,462 ha**

Amcangyfrifir fod 32,462 ha o forfeydd yn Lloegr. Mae'r rhain ar hyn o bryd yn cael eu bygwth gan wasgfa arfordirol.

**62%**

Roedd coetiroedd yn Lloegr wedi atafaelu 8.4 miliwn tunnell o garbon yn 2017.[12]

Mae 62% o gyfanswm arwynebedd coetiroedd Lloegr yn goetiroedd brodorol.[13]

## Cymru

**90%**

Mae mawndiroedd yn ymestyn dros o leiaf 4% o Gymru, ac maent wedi profi colledion, difrod a darnio parhaus. Mae tua 90% wedi'u diraddio o ganlyniad.[14]

**7,782 ha**

Amcangyfrifir fod 7,782 ha o forfeydd yng Nghymru.[15] Mae'r rhan fwyaf mewn cyflwr anffafriol, a rhagwelir colledion sylweddol o ganlyniad i wasgfa arfordirol.

**48%**

Roedd coetiroedd yng Nghymru wedi atafaelu 1.2 miliwn tunnell o garbon yn 2017.[12]

Mae 48% o gyfanswm arwynebedd coetiroedd Cymru yn goetiroedd brodorol.[13]

## Gogledd Iwerddon

**86%**

Mae mawndiroedd yn cyfrif am tua 12% o arwynebedd tir Gogledd Iwerddon, ond mae 86% wedi'i ddiraddio a dim ond tua 1% o arwynebedd y mawndir sydd wedi'i adfer yn ystod y 30 mlynedd diwethaf.

**3,110 ha**

Mae 3,110 ha o forfeydd yng Ngogledd Iwerddon. Amcangyfrifir fod gwerth morfeydd yn y rhanbarth arfordirol yn 8,273 ha y flwyddyn.[16]

**40%**

Roedd coetiroedd yng Ngogledd Iwerddon wedi atafaelu 0.6 miliwn tunnell o garbon yn 2017.[12]

Mae tua 40% o gyfanswm arwynebedd coetiroedd Gogledd Iwerddon yn goetiroedd brodorol.[17]

## Yr Alban

**80%**

Mae tua 1.9 miliwn ha o fawndiroedd yn yr Alban ac mae 80% ohonynt wedi diraddio mewn rhyw ffordd. Mae'r mawndiroedd hyn yn gyfrifol am tua 13% o holl allyriadau'r Alban.

**7,076 ha**

Mae morfeydd yr Alban yn ymestyn dros 7,076 ha ac maent yn dal tua 370,000 tunnell o garbon. Mae hwn yn gynefin sensitif iawn.

**32%**

Roedd coetiroedd yr Alban wedi atafaelu 8 miliwn tunnell o garbon yn 2017.[12]

Dim ond 32% o gyfanswm arwynebedd coetiroedd yr Alban sy'n goetiroedd brodorol.[13]

## Tiriogaethau Tramor y DU



Nid oes gan Lywodraeth y DU strategaeth i helpu Tiriogaethau Tramor y DU i addasu ar gyfer newid yn yr hinsawdd, er bod mwy a mwy o gorwyntoedd yn y Caribî. Nid oes ganddi ddim dealltwriaeth fanwl o unrhyw oblygiadau posibl i drethdalwyr y DU o ganlyniad i fygythiadau'r hinsawdd i'r Tiriogaethau. Nid yw ychwaith wedi helpu unrhyw Diriogaeth i ymuno â Chytundeb Paris hyd yma. Mae cynefinoedd mangrof heb eu gwarchod yn Nhiriogaethau Tramor y DU yn y Caribî ar hyn o bryd yn storio'r hyn sy'n cyfateb i allyriadau blynyddol 2.7 miliwn o geir.

## Moroedd y DU



Er bod cydnabyddiaeth gynyddol i'r angen i warchod a rheoli storfeydd carbon glas yn effeithiol (drwy Strategaeth Forol y DU, y Cyd-ddatganiad Pysgodfeydd, Cynllunio Gofodol Morol a rhaglenni cyflawni MPA (i enwi dim ond ychydig) nid oes llawer o fesurau i weithredu ar yr uchelgais hon, yn enwedig yr ymrwymiadau hinsawdd o dan y Ddeddf Pysgodfeydd.

# Cyllid



**Machlud yn Nhraeth Llyfn**
Drew Buckley (rspb-images.com)

# Beth ydyn ni ei eisiau?


Erbyn 2030, newid **sylfaenol tuag at economi natur bositif**. Mae'r bwlch cyllido ar gyfer natur wedi'i gau, mae penderfyniadau buddsoddi'n natur bositif, ac mae cronfeydd ar gael ac wedi'u targedu mewn ffyrdd sy'n gwneud gwahaniaeth gwirioneddol i natur.

# Sut fyddwn yn gwybod ein bod wedi cyflawni?

- **Bydd cyllid ar gyfer natur yn cyfateb i raddfa'r angen.** Bydd bwlch cyllid natur y DU, yr amcangyfrifir sy'n £56 biliwn dros y 10 mlynedd nesaf, wedi'i gau.
- **Mae gwariant gan Lywodraethau** ar natur wedi cynyddu'n sylweddol.
- **Mae gwariant cyhoeddus yn amodol ar fod yn natur bositif.** Mae cymorthdaliadau sy'n niweidio natur wedi dod i ben.
- **Mae effeithiolrwyd gwariant cyhoeddus yn cael ei fonitro'n fanwl.**
- Bydd cyllid ar gyfer natur yn cael ei **wario'n fwy effeithiol** i helpu adferiad natur, a bydd yn hygyrch.
- **Mae buddsoddiad preifat a dyngarol** mewn natur wedi cynyddu.

# Astudiaethau achos ysbrydoledig

## Lloegr


Hebog tramor
Graham Eaton (rspb-images.com)

### Cronfa Amgylcheddol Manceinion Fwyaf

Cronfa effaith amgylcheddol ranbarthol gyntaf y DU yw Cronfa Amgylcheddol Manceinion Fwyaf. Mae'n ailgylchu cyfalaf yn ôl i gyflawni gweledigaeth y Greater Manchester Combined Authority ar gyfer yr amgylchedd naturiol drwy sicrhau ffynhonnell o gyllid canolog ar gyfer prosiectau amgylcheddol. Mae'r GMCA wedi gweithio ag eraill i greu cyfleoedd i gyllidwyr cyhoeddus, preifat a dyngarol i fuddsoddi mewn a chefnogi adferiad cynefinoedd a datrysiadau eraill sy'n seiliedig ar natur ledled yr Awdurdod Cyfun.

## Cymru


Penrhyn Ystagbwll, Sir Benfro
Drew Buckley (rspb-images.com)

### Rhaglen Rhwydweithiau Natur Llywodraeth Cymru

Mae'r rhaglen hon yn cydnabod yr angen i fuddsoddi dros nifer o flynyddoedd i helpu i wyrdroi colledion mewn bioamrywiaeth. Ei nod yw cyflawni cydnerthedd cynyddol safleoedd gwarchodedig a'r rhwydweithiau ecolegol maent yn rhan ohonynt. Bydd cyllideb o £45-60m ar gael rhwng 2020 a 2025-26. Mae ymarferiad mapio wedi'i gwblhau eisoes i helpu i lywio'r buddsoddiad ac i ganfod y camau â blaenoriaeth sydd ei hangen i greu rhwydweithiau ecolegol mwy cydnerth.

## Gogledd Iwerddon


Argaeau mawn mewn draen fawr
Becca Allen, NIW

### Buddiannau Adferiad y Garron Plateau

Mae adferiad y Garron Plateau – yr orgors gyflawn fwyaf yng Ngogledd Iwerddon – yn rhagori ar y costau, gyda gwerth net presennol o £37.3m. Am bob £1 a fuddsoddwyd yno bydd £3.91 mewn buddiannau. Mae 92% o'r buddiannau'n deillio o newidiadau mewn atafaelu carbon. Bydd allyriadau'n gostwng wrth i'r adferiad fynd yn ei flaen a bydd y safle'n newid o fod yn allyrwr net mawr i fod yn storfa garbon. Cadarnhaodd yr asesiad cyfalaf naturiol mai carbon, gwasanaethau dŵr a bioamrywiaeth yw buddiannau pwysicaf o bell ffordd y safle i bobl. Mae gan ffermwyr hefyd rôl allweddol fel 'rheolwyr carbon'. Mae help ganddynt, ac iddynt, yn hanfodol i lwyddiant tymor hir y prosiect.

## Yr Alban


Ffawydden ifanc
Mike Read (rspb-images.com)

### Hwyl Adfer Natur

Yn 2021, sefydlodd Llywodraeth yr Alban Gronfa Adferiad Natur ar gyfer prosiectau sy'n helpu i fynd i'r afael â'r argyfwng natur a hinsawdd drwy adfer amgylcheddau naturiol yr Alban ar dir a môr. Mae Llywodraeth yr Alban wedi addunedu £65m i'r gronfa yn ystod y tymor seneddol presennol. Bydd y gronfa'n cefnogi prosiectau sy'n mynd i'r afael ag achosion uniongyrchol y dirywiad mewn bywyd gwyllt. Rydym yn awyddus i weld y gronfa'n cael ei hehangu i alluogi prosiectau trawsnewid yr ecosystem ar raddfa fawr.

## Tiriogaethau Tramor y DU


Albatros Tristan
Kate Lawrence (rspb-images.com)

### Cynllun Darwin Plus wedi'i ddiwygio

Yn 2022, lansiodd DEFRA fersiwn ddiwygiedig o'r cynllun Darwin Plus ar gyfer y Tiriogaethau Tramor. Mae'r rhaglen holl bwysig hon sy'n ariannu prosiectau wedi cynyddu o tua £3.5m y flwyddyn i £10m. Mi all yn awr helpu gweithredu amgylcheddol ar lawr gwlad yn ogystal â phrosiectau trawsnewid gwerth rhwng £1m a £3m. Mae'r blaenoriaethau cyllido wedi'u hehangu fel y bydd Tiriogaethau'n gallu rhoi sylw i'w hanghenion sydd angen sylw ar frys, a hefyd i newid eu pwyslais i gael effaith yn ymarferol.

## Moroedd y DU


Goleudy Trwyn Du
Drew Buckley (rspb-images.com)

### Cronfa Gwella Amgylchedd Morol yr Alban (SMEEF)

Mae'r gronfa hon yn system wirfoddol sy'n galluogi defnyddwyr sy'n elwa ar adnoddau cyfoethog y moroedd i ailfuddsoddi yn iechyd a bioamrywiaeth ein moroedd. Nod y gronfa yw gwarchod a gwella ein moroedd, helpu diwydiannau i dyfu'n gynaliadwy, a helpu i wella economi llesiant cymunedau arfordirol yr Alban a'u hymwelwyr. Mae hi'n cael ei rheoli gan Lywodraeth yr Alban.

# Beth sydd angen inni ei wneud?

Mae buddsoddi mewn natur yn hanfodol i gyflawni buddiannau lluosog i gymdeithas a gwyddom fod mynediad at natur yn gwella ansawdd bywyd ac yn cyfrannu at iechyd corfforol a meddyliol. Mae ymchwil wedi amcangyfrif fod buddiannau buddsoddi mewn mannau gwyrdd yn fwy na'r gost ariannol ar gyfradd o 20:1.

Mae adroddiad i'r RSPB ar ddatrysiadau sy'n seiliedig ar natur wedi dangos y byddai'r enillion economaidd a chymdeithasol yn £4.63 am bob £1 a werir ar adfer yn achos mawndiroedd, a £2.79 yn achos coetiroedd.

## Mae angen i lywodraethau'r DU:

- Trawsnewid prosesau penderfynu mewn llywodraeth ac yn y meysydd busnes ac ariannol i **ystyried eu heffaith ar natur, atal y ffactorau sy'n arwain at golledion** a sicrhau **bod gan ddefnyddwyr ddewis gwell o opsiynau Natur Bositif.**
- **Hyrwyddo, cefnogi a chymell sectorau allweddol i ddatblygu mewn ffyrdd natur bositif.** Mae hyn yn golygu y bydd eu gweithgarwch economaidd yn cael llai o effaith ac yn gwella ecosystemau.
- **Cynyddu ac ailgyfeirio cyllid i gyflawni economi natur positif.**
- **Datblygu cynlluniau clir, wedi'u costio i fynd** i'r afael â'r argyfwng natur a hinsawdd ar lefelau cenedlaethol a lleol.
- **Gwneud penderfyniadau gwario mwy gwyrdd, gan gynnwys diwygio trethiant.** Bydd hyn yn sicrhau bod cymhellion a chymorthdaliadau sy'n arwain ar ddirywiad natur drwy arian cyhoeddus yn dod i ben, a bod holl wariant y llywodraeth yn cyd-fynd â chyflawni sero net a gweithredu natur bositif.
- Ehangu cyfleoedd buddsoddi yn y sector preifat mewn natur.

## Country specific actions needed:



### Lloegr

- Datblygu cynllun i gau'r bwlch cyllido natur, a chynyddu cyllid cyhoeddus a phreifat i gyrraedd targedau natur.
- Ei gwneud yn ofynnol bod pob corff cyhoeddus yn asesu eu heffaith ar natur ac yn gweithio i fod yn natur bositif.
- Sicrhau bod uchelgeisiau llywodraeth ar gyfer cyllid preifat yn arwain at gyllid effeithiol ar gyfer blaenoriaethau natur, ac yn ategu arian cyhoeddus ar gyfer nwyddau cyhoeddus.
- Ehangu polisïau Enillion Net Bioamrywiaeth y tu hwnt i ddatblygiadau newydd. Mae Defra yn disgwyl y bydd y farchnad enillion bioamrywiaeth yn werth rhwng £100m a £150m y flwyddyn yn Lloegr. Hybu datblygiad cyflym arbenigeddau a safonau ymarfer.
- Adeiladu ar 'Nature for Climate Fund' Lloegr, a fydd yn dyrannu £640m dros bum mlynedd i brosiectau natur. Cysylltu cyllid gwyrdd â'r Codau Carbon Coetiroedd a Charbon Mawndiroedd.



### Cymru

- Cynyddu buddsoddiad cyhoeddus mewn adferiad natur a sicrhau bod y cyllid yn hybu prosiectau cydweithredol mawr i adfer natur.
- Parhau i ddatblygu'r Cynllun Ffermio Cynaliadwy i sicrhau bod ffermwyr yn cael eu gwobrwyo ag arian cyhoeddus am nwyddau cyhoeddus, sy'n cynnwys bioamrywiaeth.
- Integreiddio'n llawn yr ymateb i'r argyfwng natur a hinsawdd ym mhob adran, a sicrhau bod cefnogaeth gyhoeddus i fusnes yn amodol ar gyfrannu at sero net a thargedau adfer natur.
- Datblygu fframweithiau a safonau clir ar gyfer buddsoddiad preifat mewn datrysiadau sydd wedi'u seilio ar natur sy'n diogelu cymunedau ac yn sicrhau buddiannau gwirioneddol i fioamrywiaeth. Cefnogi cronfa parodrwydd i fuddsoddi i greu cyfleoedd buddsoddi mwy cynaliadwy.
- Buddsoddi mewn Gwasanaeth Natur Cenedlaethol i greu swyddi a sgiliau gwyrdd.



### Gogledd Iwerddon

- Erbyn 2023, cynnal adolygiad i ddatgloi cyllid preifat ar gyfer natur yng Ngogledd Iwerddon.
- Erbyn 2024, datblygu fframwaith a safonau i alluogi arian o'r sector preifat i lifo drwy farchnadoedd amgylcheddol.
- Erbyn 2024, sefydlu cronfa parodrwydd i fuddsoddi i ganfod prosiectau posibl sy'n seiliedig ar natur a datblygu rhagor o brosiectau i greu cyfleoedd posibl i fuddsoddi.
- Erbyn 2025, rhoi prosiectau seiliedig ar natur ac sy'n cael eu harianu gan y sector preifat ar waith.
- Sefydlu Nature for Climate Fund. Gall hon ddatgloi potensial economaidd adfer yr amgylchedd naturiol drwy brosiectau adfer natur mawr. Gall y rhain gynnwys adfer mawndiroedd, creu coetiroedd, adfer carbon glas, creu rhwydweithiau adfer natur, ac adfer safleoedd gwarchodedig.



### Yr Alban

- Gwario mwy o arian ar natur a phennu'r amodau cywir i gynyddu buddsoddiad y sector preifat mewn natur.
- Cynnal arolwg ar unwaith o wariant cyhoeddus i roi diwedd ar gymhellion sy'n achosi mwy o allyriadau ac sy'n arwain at golli natur. Cynnwys amodau sy'n golygu y bydd cymorth drwy gyllid cyhoeddus yn amodol ar gyflawni targedau sero net ac adferiad natur.
- Gwneud sectorau targed o'r economi, fel ffermio a choedwigaeth, yn fwy gwyrdd, fel y byddant yn natur bositif. Rhaid diwygio cymorthdaliadau amaethyddol i sicrhau bod arian cyhoeddus yn arwain at nwyddau cyhoeddus fel priddoedd iach, carbon, a bywyd gwyllt, yn ogystal â bwyd o safon uchel.
- Datblygu cynlluniau uchelgeisiol ar gyfer Strategaeth Genedlaethol ar gyfer Trawsnewid Economaidd a fydd yn cyflawni economi natur bositif. Ymgorffori hyn ym mhob un o bortffolios y llywodraeth.



### Moroedd y DU

- Sicrhau bod cronfa Adferiad Morol yn cael ei lansio'n llwyddiannus o dan y Pecyn Gwelliant Amgylcheddol Gwynt ar y Môr. Gallai trefniadau DU gyfan hwyluso monitro strategol, dadansoddi data, a mesurau cydlynus i adfer natur ar raddfa fawr.
- Cymhwyso system enillion net bioamrywiaeth forol yn achos pob datblygiad, a sicrhau bod asesiadau llym yn cael eu cynnal i ganfod eu heffaith ar fioamrywiaeth.
- Rhoi cymorth ariannol i gymell a hybu datblygiadau technolegol a monitro i osgoi a lleihau'r niwed a achosir gan ynni adnewyddadwy ar y môr.



### Tiriogaethau Tramor y DU

- Parhau â'r cynllun cyllido Darwin Plus, i sicrhau mynediad eang i ymgeiswyr o'r Tiriogaethau drwy ffenestr o ddyddiadau cau ymgeisio hael, prosesau syml ac adolygwyr arbenigol sydd â phrofiad uniongyrchol o'r realiti ar lawr gwlad.
- Sefydlu 'Cronfa Adfer Ecosystemau Ynysoedd', a fyddai'n darparu cyllid sefydlu a nawdd cyfatebol i gyd-fynd â chyllid y DU ac ynysoedd UKOT i gael gwared ar rywogaethau goresgynnol ac i alluogi i'r ecosystem wella.
- Parhau i ariannu'r Rhaglen Blue Belt ar gyfer Ardaloedd Morol Gwarchodedig UKOT.
- Gweithio â sefydliadau eraill y Caribî i helpu i gael y cyllid angenrheidiol i alluogi Tiriogaethau'r Caribî i addasu i newid yn yr hinsawdd a'r corwyntoedd cynyddol nerthol.

# Y sefyllfa bresennol

## Y Deyrnas Unedig

**Bwlch o £44-£97 biliwn**

Mae adroddiad diweddar y Green Finance Institute yn amcangyfrif bod bwlch cyllid natur y DU yn £44-£97 biliwn (gydag amcangyfrif canolog o £56 biliwn) dros 10 mlynedd, gyda £19 biliwn ohono'n ymwneud yn benodol â gwarchod ac adfer bioamrywiaeth. Yn ôl ein hamcangyfrif ni, os ydym am gyflawni amcanion cynefinoedd a rhywogaethau â blaenoriaeth yn unig, mae graddfa angen flynyddol o £1.8 biliwn.

## Lloegr

**Bwlch o £21-£53 biliwn**

Yn Lloegr amcangyfrifir fod bwlch cyllid natur o £21 - £53 biliwn yn ystod y 10 mlynedd nesaf.

## Cymru

**Bwlch o £5-£7 biliwn**

Yng Nghymru amcangyfrifir fod bwlch cyllid natur o £5 - £7 biliwn yn ystod y 10 mlynedd nesaf.

## Gogledd Iwerddon

**Bwlch o £3-£5 biliwn**

Yng Ngogledd Iwerddon amcangyfrifir fod bwlch cyllid natur o £3 - £5 biliwn yn ystod y 10 mlynedd nesaf.

## Yr Alban

**Bwlch o £15-£27 biliwn**

Yn yr Alban amcangyfrifir fod bwlch cyllid natur o £15 - £27 biliwn yn ystod y 10 mlynedd nesaf.

## Tiriogaethau Tramor y DU



Amcangyfrifir fod bwlch cyllid natur o £200 miliwn yn Nhiriogaethau Tramor y DU - £1.4 biliwn yn ystod y 10 mlynedd nesaf.

**Bwlch o £200 million - £1.4 billion**

## Moroedd y DU



Ychydig iawn o arian sydd ar gael i wneud ymchwil, i gyflawni neu fonitro yn yr amgylchedd morol, ac mae hynny'n amharu ar gyfleoedd i atal dirywiad mewn bywyd gwyllt ac i gyrraedd sero net ar y cyflymder gofynnol. Hyd yma, mae monitro'n digwydd mewn 13% yn unig o Ardaloedd Morol Gwarchodedig. Mae hyn yn llawer is na'r gofynion i wella dealltwriaeth o rôl yr ardaloedd gwarchodedig i warchod ac adfer cynefinoedd a rhywogaethau gwarchodedig.



Albatross Tristan
Tom McSherry (rspb-images.com)



# Grym y bobl

Haid o ddrudwy
Ben Andrew (rspb-images.com)

Ein gweledigaeth am fyd natur bositif yw un lle gall natur a phobl ffynnu. Os bydd llywodraethau'r DU yn cymryd y camau a ddisgrifir gennym yn yr adroddiad hwn, mi fydd y weledigaeth honno o fewn cyrraedd o'r diwedd. Ond y gwir yw bod **llwyddiant yn dibynnu ar helpu a grymuso pobl i weithredu dros natur**. Mae hyn yn hanfodol i osod y sylfeini ar gyfer llwyddiant, i sicrhau cynnydd ystyrlon ac i fuddiannau tymor hir, amrywiol gael gwreiddio. Mae ein cysylltiad â natur a'n gallu i gyfrannu at adferiad natur, yn hanfodol i symud tuag at fyd natur bositif. Bydd y newid hwn yn ei dro'n arwain at fuddiannau niferus i bobl yn ogystal ag i'r amgylchedd. Mae angen i lywodraethau chwarae eu rhan i alluogi grym y bobl i dyfu ac i ffynnu.

## Mae angen i lywodraethau'r DU:

- **Sicrhau bod gan bawb fynediad** at fannau gwyrdd a glas sy'n gyfoethog mewn natur.
- **Buddsoddi i wella'r ddarpariaeth addysg** sy'n sicrhau bod profiadau dysgu awyr agored yn rheolaidd ac yn ddisgwyliad cynyddol i bawb.
- **Hybu gwyddoniaeth y bobl a gweithredu gwirfoddol.**
- **Cydnabod gwerth natur er mwyn llesiant** a buddsoddi mewn rhagnodi natur.
- **Helpu a grymuso pobl i weithredu dros natur,** o fyfyrwyr, rheolwyr tir, i berchnogion busnes, garddwyr rhandiroedd, a thu hwnt.

# Crynodeb



**Llyn bychan ger Loch Naver**
David Tipling (rspb-images.com)

Dim ond drwy newid sy'n trawsnewid y gallwn symud ein byd naturiol o ddirywiad i wellhad yn y degawd hwn. Rhaid i lywodraethau'r DU fod ar flaen y gad, gan gyflawni addewidion a wnaed ar y llwyfan rhyngwladol drwy weithredu gartref. Camau a gymerir gyda, ac ar ran, pawb.

**Rhaid i bob un o lywodraethau'r DU weithredu'n awr i symud tuag at fyd natur bositif. I grynhoi, rhaid i'r camau hyn gynnwys:**

- symud tuag at economi natur bositif;
- cryfhau deddfau amgylcheddol, sy'n cael eu hategu gan orfodaeth;
- datblygu a chyflawni cynlluniau a strategaethau cadarn ar gyfer gweithredu;
- cymryd camau cyfannol i arwain at sawl datrysiad;
- sicrhau cyllid digonol ac effeithiol;
- ategu hyn i gyd â gwyddoniaeth a monitro;
- a helpu a grymuso pobl i weithredu dros natur.

**Gall hwn fod yn ddegawd o weithredu.**

## Mae natur mewn argyfwng.

## Gyda'n gilydd mi allwn achub natur.

# Fframwaith Bioamrywiaeth Fyd-eang Kunming-Montreal

**Gweledigaeth 2050: Byw mewn cytgord â natur**

Ym mis Rhagfyr 2022, daeth gwledydd o bob rhan o'r byd at ei gilydd i gytuno ar gynllun byd-eang newydd i atal a gwrthdroi colledion byd natur y degawd hwn. Yr enw arno yw Fframwaith Bioamrywiaeth Fyd-eang Kunming-Montreal. Isod mae crynodeb o'r hyn y mae'r fframwaith yn ei gynnwys. **Cliciwch ar y ddolen ar y gornel dde uchaf i weld y fframwaith llawn.**

## Nodau Byd-eang ar gyfer 2050

**NOD A:** Canlyniadau ar gyfer adfer rhywogaethau ac ecosystemau

**NOD B:** Defnydd cynaliadwy a chyfraniadau natur i bobl

**NOD C:** Rhannu buddion adnoddau genetig yn deg

**NOD D:** Dulliau gweithredu, gan gynnwys cyllid

## Cenhadaeth 2030

Cymryd camau brys i atal a gwrthdroi colli bioamrywiaeth er mwyn rhoi natur ar lwybr at adferiad er budd pobl a'r blaned

## Targedau byd-eang ar gyfer 2030

### Lleihau bygythiadau i fioamrywiaeth

- TARGED 1: cynllunio gofodol
- TARGED 2: adfer ecosystemau
- TARGED 3: ardaloedd gwarchodedig
- TARGED 4: adfer rhywogaethau
- TARGED 5: goramaethu
- TARGED 6: rhywogaethau estron goresgynnol
- TARGED 7: llygredd
- TARGED 8: Newid hinsawdd

### Diwallu anghenion pobl

- TARGED 9: Defnydd cynaliadwy o rywogaethau gwyllt
- TARGED 10: Cynhyrchu cynaliadwy
- TARGED 11: Cyfraniad byd natur i bobl
- TARGED 12: Amgylchedd trefol
- TARGED 13: Cael mynediad a buddion rhannu

### Adnoddau a datrysiadau

- TARGED 14: Prif ffrydio
- TARGED 15: Gweithredu busnesau
- TARGED 16: Defnydd cynaliadwy
- TARGED 17: Bioddiogelwch
- TARGED 18: Diwygio cymorthdaliadau
- TARGED 19: Symud adnoddau ariannol
- TARGED 20: Meithrin gallu
- TARGED 21: Rhannu gwybodaeth a data
- TARGED 22: Pobl frodorol a chymunedau lleol
- TARGED 23: Rhywedd



**Awyrlun o Goedwig Law Harapan, Talaith Jambi, Sumatra, Indonesia**
Steve Rowland (rspb-images.com)

# Cyfeiriadau



Pabïau, penlas yr ŷd ac amranwen di-sawr mewn cae gwenith
Phil Cutt (rspb-images.com)


## CYFEIRIADAU ADFERIAD RHYWOGAETHAU

[1]State of Nature 2019 https://nbn.org.uk/wp-content/uploads/2019/09/State-of-Nature-2019-UK-full-report.pdf

[2]https://www.rspb.org.uk/globalassets/downloads/projects/48398rspb-biodivesity-intactness-index-summary-report-v5-1-1.pdf

[3]State of Natural Resources Wales 2019 https://naturalresources.wales/evidence-and-data/research-and-reports/state-of-natural-resources-interim-report-2019/challenges/?lang=en#:~:text=The%202019%20State%20of%20Nature%20report%20found%20that%201%20in,are%20now%20lost%20from%20Wales

## CYFEIRIADAU ARDALOEDD GWARCHODEDIG

[4]https://www.sciencedirect.com/science/article/pii/S235198942100295X

[5]https://naturalresources.wales/evidence-and-data/research-and-reports/protected-sites-baseline-assessment-2020/

[6]DAERA Environmental Statistics report 2022 https://www.daera-ni.gov.uk/sites/default/files/publications/daera/ni-environmental-statistics-report-2022.pdf

[7]Natural Resources Wales 2018 https://gov.wales/sites/default/files/publications/2018-10/marine-protected-areas-network-management-framework-for-wales-2018-2023.pdf

## CYFEIRIADAU BWYD A FFERMIO

[8]CCC report 2022 https://www.theccc.org.uk/wp-content/uploads/2022/06/Progress-in-reducing-emissions-2022-Report-to-Parliament.pdf

[9]https://www.bto.org/our-science/publications/state-birds-wales/state-birds-wales-2018

[10]https://www.rspb.org.uk/our-work/conservation/projects/birds-of-conservation-concern-ireland/

[11]https://www.gov.scot/publications/provisional-results-scottish-agricultural-census-june-2020/documents/

## CYFEIRIADAU NEWID YN YR HINSAWDD

[12]https://www.ons.gov.uk/economy/environmentalaccounts/bulletins/woodlandnaturalcapitalaccountsuk/ecosystemservicesforenglandscotlandwalesandnorthernireland2020

[13]https://sp-bpr-en-prod-cdnep.azureedge.net/published/2021/8/19/fd352596-863e-4e0f-9a5e-84af26856d74-1/SB%2021-49.pdf

[14]https://cdn.cyfoethnaturiol.cymru/media/692545/national-peatlands-action-programme.pdf

[15]https://cdn.cyfoethnaturiol.cymru/media/694107/coastal-margins.pdf

[16]https://www.ulsterwildlife.org/sites/default/files/2021-05/Blue%20Carbon%20Habitat%20Restoration%20in%20Northern%20Ireland%20-%20A%20Feasibility%20Study.pdf

[17]https://www.woodlandtrust.org.uk/about-us/where-we-work/northern-ireland/#:~:text=Northern%20Ireland%20ranks%20badly%20as,the%20European%20average%20of%2037%25

## Bydd y degawd nesaf yn allweddol i ddyfodol ein planed ac mae ein cyfraniad yn bwysicach nag erioed.

**Yr hyn rydym yn gobeithio'i gyflawni erbyn 2030:**
Cliciwch yma am ragor o fanylion

**Sut y gallwn symud tuag at ddyfodol natur bositif:**
Cewch yr ateb yma

Diolch am gefnogaeth ein partneriaid, grantiau, corfforaethol, ymddiriedolaethau a sefydliadau, am helpu i achub rhywogaethau sydd ar ymyl y dibyn.

## Cysylltiadau


Georgina Chandler
georgina.chandler@rspb.org.uk

Fiona Dobson
fiona.dobson@rspb.org.uk


RSPB

Protecting habitats, saving species and helping to end the nature and climate emergency.

**Nature is in crisis.**
**Together we can save it.**

**Cadwch mewn cysylltiad**
Cadw mewn cysylltiad â'r syniadau, y newyddion, y digwyddiadau a'r wybodaeth ddiweddaraf gan yr RSPB yn eich cymuned leol.

@natures_voice  @TheRSPB  @rspb_love_nature


**Prif Swyddfa**
RSPB The Lodge
Potton Road
Sandy
SG19 2DL



Mae'r RSPB yn elusen gofrestredig yng Nghymru a Lloegr 207076, yn yr Alban SC037654. Mawrth 2023
Llun y clawr: Llun o'r awyr o Snettisham ar arfordir Norfolk wedi'i dynnu gan ddrôn, Diana Buzoianu (Shutterstock)